PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer


75c | Rhif 443 | Tachwedd 2021



Taith Tan-y-bwlch

t.15

Cynghorion Cynog - COP26



t.9

Ysgrif fuddugol Dylan Huw



t.18

# Sgorio!!





Llongyfarchiadau i'r ddau frawd Ned a Twm o Benrhyn-coch am gael eu derbyn i dîm datblygu Clwb Pêl-droed Abertawe.




Gruff Sedgewick a ddewiswyd i chwarae pêl-droed dros Ogledd Cymru- gweler t.4



Llongyfarchiadau i Owain Llyr Hywel a Jack Jones, Ysgol Penweddig, ar eu perfformiadau cadarn yn chwarae yn nhîm pêl-droed Ceredigion yn erbyn Tîm Ysgolion Afan Nedd. Roedd Ceredigion yn fuddugol o 6 i 3, dechreuad penigamp!



Llongyfarchiadau i Noa Elias Jones, Blwyddyn 8, Ysgol Penweddig – cyn ddisgybl Ysgol Rhydypennau ar gael ei ddewis i sgwad criced cenedlaethol Cymru dan 13. Bydd Noa yn hyfforddi gyda'r sgwad cenedlaethol dros y gaeaf.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


CYMRAEG

# dyddiadur

**Rhifyn Rhagfyr. Dyddiad cau** Rhagfyr 3; **Dyddiad cyhoeddi** Rhagfyr 15

**TACHWEDD 17** Nos Fercher Noson yng nghwmni'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan. Cymdeithas y Penrhyn trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**TACHWEDD 19** Dydd Gwener. Diwrnod Plant mewn Angen 2021

**TACHWEDD 19** Nos Wener Sgwrs gan Gwenllian Grigg – 'Menyw Newyddion' Cymdeithas Lenyddol y Garn Cyfarfod Zoom am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno – cysylltwch â Marian am fanylion (marian_hughes@btinternet.com)

**TACHWEDD 20** Pnawn Sadwrn Ffair Grefftau Cylch Meithrin Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau am 2.00

**TACHWEDD 20** Dydd Sadwrn Eisteddfod CFfI Cymru ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

**RHAGFYR 2** Nos Iau Cwis Nadolig Steddfota; trefnir gan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru ar-lein trwy Zoom am 7.30

**RHAGFYR 4** Prynhawn Sadwrn Marchnad Nadolig Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn rhwng 2.00-5.00 Am fwy o fanylion cysylltwch â 07922 360813.

**RHAGFYR 10** Nos Wener 'Dathlu'r Nadolig' gydag Arfon Gwilym a Sioned Webb Cymdeithas Lenyddol y Garn Cyfarfod Zoom am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno – cysylltwch â Marian am fanylion (marian_hughes@btinternet.com)

**RHAGFYR 11** Bore Sadwrn Brecwast gyda Sion Corn yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch – Brecwast @9.00; Sion Corn 9.30-10.00

**RHAGFYR 16** Nos Iau Plygain draddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn – trefnir yn rhithiol trwy zoom am 7.00

**RHAGFYR 18** Bore Sadwrn Brecwast gyda Sion Corn yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch – Brecwast @9.00; Siôn Corn 9.30-10.00

**RHAGFYR 22** Dydd Mercher Ysgolion Ceredigion yn cau ar gyfer Gwyliau Nadolig






## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Hydref 2021

**£25** (Rhif 251) Iestyn Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
**£15** (Rhif 160) Ann James, Pen-banc, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 112) Arthur Williams, Penrhiwlas, Goginan

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

YTincer@googlemail.com

**Diolch**
Hoffai Nia Gore ddiolch yn fawr iawn i bawb 'nath gefnogi ei Thaith tractorau er cof am ei thad-cu eleni eto. Codwyd cyfanswm o £4660 i Beiciau Gwaed Cymru ac Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais.


Llun: Beverley Hemmings

## Pwyllgor Gwobr Llanbryn-mair

Annwyl Olygydd
**Awydd Cyfansoddi Sioe Gerdd?**
Carwn dynnu eich sylw at Wobr Lenyddol, sef **Gwobr Llanbryn-mair.**

Mae hi'n wobr a gynigir yn flynyddol am waith,mewn rhyddiaith fel arfer sy'n ymwneud â thalgylch Eisteddfod Talaith a Chadair Powys. Mae hon yn ardal sy'n cynnwys Sir Drefaldwyn, rhan dda o'r hen Sir Ddinbych, Edeyrnion, Penllyn a'r Gororau.

Mae hon yn wobr o £5,000 ac am 2022/23 mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cael sgript a sgôr Sioe Gerdd a hynny 'n ddelfrydol mewn cydweithrediad efo Cwmni fyddai'n awyddus i lwyfannu'r gwaith.

Y prif amod wrth gwrs yw y byddai'n rhaid i'r sgript ymwneud yn uniongyrchol â Phowys, drwy roi sylw I chwedloniaeth, hanes, digwyddiad neu gymeriad o'r rhanbarth. Am ragor o wybodaeth cysyllter â Dafydd Morgan Lewis ar dafyddmorgan53@gmail.com .

Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Ionawr 31 2022.

Yn gywir,
**Dafydd Morgan Lewis**
Ysgrifennydd
Pwyllgor Gwobr Llanbryn-mair
07870996220 . 01938 820330

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

## 30 mlynedd yn ôl



Aelodau Cyngor Cymuned Tirymynach 1991-4 yn eu cyfarfod fis Hydref; rhes gefn o'r chwith i'r dde: Ifan Phillips, Ivor Mason, John Watts Williams, Mrs Mary Thomas, Tegwyn Jones, Vernon Jones. Rhes flaen: John P. Rees, R. Wynn Cowell (Cynghorydd Dyfed), Gwynant Phillips, Eileen Faithfull ac Eluned Rowlands. Roedd tri aelod yn absennol: Dewi Evans (Cadeirydd), Byron jones a Hywel Wyn Jones. Llun: Vaughan Griffifths. (O Dincer Tachwedd 1991)

## O gwmpas y meysydd chwarae

Bu'n bleser pur tywys yr awdur Michael Grimes o Lundain o gwmpas meysydd pêl-droed ardal *Y Tincer ar* Ddydd Mawrth 9 Tachwedd. Mae ei gyfrol *From Saints to Druids*, sy'n cofnodi ei ymweliadau â 12 o feysydd Uwch Gynghrair Cymru yn 2019 wedi cael derbyniad caredig, ac newydd fynd i ail argraffiad. Mae'n gyfrol sy'n gymaint mwy nag un am bêl-droed yn unig – yn ogystal mae'n cynnwys dipyn o hanes lleol ac ymdriniaeth ddeallus ar enwau lleoedd. Cafodd Michael gyfle i weld meysydd Cae Baker (Penrhyn-coch), Cae Piod (Bow Street) a Chae Uppingham (Y Borth) a nifer o feysydd eraill yn ardal Aberystwyth yn cynnwys Cae'r Ficerdy, Coedlan y Parc a Min-y-ddôl (Penparcau). Gobeithio y gwelwn gyfrol arall newydd o ddwylo Michael yn dilyn ei ail ymweliad â Cheredigion.

Gellir archebu *From Saints to Druids* am £17-99 (yn cynnwys cludiant) drwy gysylltu â Michael ar y cyfeiriad canlynol: michaelbgrimes101@gmail.com

**Richard E. Huws**




**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

## Dol-y-bont

**Peldroedwyr**
Llongyfarchiadau mawr i Tirion a Gruff Sedgewick, Tynsimdde, ar gael eu dewis i chwarae pêl-droed dros Geredigion. Mae Gruff hefyd wedi ei ddewis i chwarae pêl droed dros Ogledd Cymru. Pob hwyl i chi eich dau!

**Newid aelwyd**
Estynnwn groeso i Naomi a Karl Green a'r merched sydd wedi symud i Captain's House. Gobeithio y byddant yn hapus yn Nôl-y-bont.

Erbyn hyn mae Nia, Matthew, Tomos a Megan Nankivel wedi symud i'w cartref newydd yng Nghlarach. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.

**Marwolaeth**
Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. Chris Roper, Tŷ Capel Babell. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i wraig Tracy, a'r teulu.

## Colofn Elin Jones



Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn hynod o brysur a diddorol.

Buais yn cynnal sgyrsiau gydag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gymru yn gofyn iddynt ailystyried unrhyw doriadau arfaethedig i ambiwlansys Ceredigion. Ar hyn o bryd mae yna bedair gorsaf ambiwlans sy'n cael eu staffio 24/7 yng Ngheredigion: Aberystwyth ac Aberteifi gyda dau griw yr un yn ystod y dydd ac un yn y nos, ac yna Ceinewydd a Llambed gydag un criw yr un yn ystod y dydd ac un yn y nos. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn trafod cynlluniau i gael gwared o un ambiwlans yr un o Aberystwyth ac Aberteifi yn ystod y dydd, ac i beidio cynnig Gwasanaeth Gofal Brys y tu allan i oriau dyddiau gwaith. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud eu bod bellach yn ailystyried y cynlluniau yma, a byddaf yn parhau i gadw llygad manwl ar y sefyllfa.

Pleser oedd cael bod yn rhan o agoriad swyddogol y Chweched Senedd ac i groesawu'r Frenhines i'r Senedd. Mi roedd hi'n bleser hefyd cael cwmni Lloyd Warburton o Aberystwyth yn yr agoriad, fel un o arwyr covid Cymru. Lloyd wrth gwrs yw'r person ifanc sydd wedi bod yn dehongli ystadegau covid ar twitter er ein lles ni gyd dros y 18mis diwethaf. Diolch i Lloyd am yr holl waith yna a mi oedd yn wych clywed Pennaeth yr NHS Cymru, Andrew Goodall, yn canmol Lloyd ar ei waith ar ddydd yr agoriad.

Roedd hefyd yn braf cael mynychu'r Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol cynhaliwyd yng nghaeau Tancastell, Aberystwyth eleni. Roedd yn un o ddigwyddiadau mawr cyntaf Ceredigion, ac roedd yn lwyddiant ysgubol. Diolch yn fawr i'r trefnwyr fu'n gweithio mor galed i aildrefnu oherwydd y pandemig, ac hefyd bu'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod canllawiau Covid i gyd yn cael eu dilyn. Roedd hyd yn oed modd i bobl nad oedd yn gallu mynychu i wylio'r digwyddiad arlein.

Daeth newyddion da hefyd am lwybr newydd sydd i ddod rhwng Bow Street a Dolau. Roeddwn i'n falch iawn i gael derbyn sicrwydd o lwybr cyd-ddefnyddio newydd rhwng y ddau bentref wedi i mi weithio gyda thrigolion lleol ar ymgyrch hir. Mae'r llythyr dderbyniais gan Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, Lee Waters AS, yn cadarnhau fod cynllun wedi ei ddatblygu a dyluniadau ar gyfer y llwybr newydd wedi eu creu. Mae'r Llywodraeth nawr yn trafod y manylion gyda thirfeddianwyr lleol, ac os bydd y sgyrsiau yma'n llwyddiannus, y gobaith yw y gall gwaith o bosib ddechrau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf, cyn belled a bod cyllid ar gael. Rydym wedi bod yn ymgyrchu am amser hir am lwybr diogel gellir cerdded a beicio arni i'r ysgol ac i fyned i wasanaethau Bow Street. Rwyf hefyd yn falch bod y cynlluniau'n cynnwys arhosfa bws ffurfiol ar y gyffordd gyda Dolau at ddefnydd bysiau ysgol, yn ogystal â bysiau gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gyffordd yma yn fan sy'n beryglus i blant ysgol a defnyddwyr bws eraill i'w groesi, wrth iddynt ddefnyddio'r bysiau o'r Dolau i Aberystwyth.

Mae wedi bod yn gyfnod hynod heriol i nifer o staff gofal y sir hefyd wrth iddynt weld cynnydd yn nifer yr achosion o'r coronafeirws yn ein hysbytai. Diolch yn fawr iddynt eto am eu gwaith di-ddiwedd, ac am y gofal maent yn rhoi. Wrth i nifer fawr ohonom fwynhau dal i fyny gyda theulu a ffrindiau, mae angen i ni i gyd gofio i fod yn ddiogel wrth wneud, gan bod y feirws yma yn dal yn ein plith ar hyn o bryd. Os byddwch yn derbyn gwahoddiad i gael trydydd dos o'r frechlyn, da chi ewch i'w gael, gan y bydd hyn yn rhoi hwb fawr i'ch imiwnedd yn erbyn y feirws. Cymrwch ofal

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

y tincer
YTincer@googlemail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

**Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr**

**CLERC A SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL I'R CYNGOR**
Gwahoddir ceisiadau am y swydd rhan-amser (tua 34 awr y mis) uchod.
Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â'r Cadeirydd Megan Mai, **Cadeiryddcmm@gmx.com**
**Dyddiad Cau**: 28 Tachwedd 2021
Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar sgiliau cyfrifiadurol a chyllidol cadarn ac mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol i'r swydd.

# Agor Arloesi Aber




Dathlodd Arloesi Aber ei agoriad swyddogol ddydd Iau 21 Hydref 2021 mewn seremoni a lywyddwyd gan y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru.

Wedi'i leoli ar Gampws Gogerddan Prifysgol Aberystwyth, mae ArloesiAber yn cynnig cyfleusterau ac arbenigedd o ansawdd byd-eang ar gyfer y sectorau biotechnoleg, amaeth-dechnoleg a bwyd a diod.

Roedd y digwyddiad yn nodi agoriad swyddogol y cyfleusterau o'r radd flaenaf yn y datblygiad gwerth £43.5m, a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Lywodraeth Cymru, y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) – sy'n rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU - a Phrifysgol Aberystwyth.

Dywedodd Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru: "Roedd yn bleser helpu i ddathlu agoriad Campws Arloesi a Menter newydd Aberystwyth. Rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cefnogi'r fenter a rhoi dros £23m drwy'r rhaglen ERDF. Mae ArloesiAber bellach mewn sefyllfa berffaith i ddatblygu prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol."

Mae ArloesiAber yn ddatblygiad 3,500m a adeiladwyd yn unol â Safonau Rhagorol BREEAM. Mae'n cynnwys pedwar parth a gynlluniwyd yn bwrpasol ar gyfer ymchwil a datblygu mewn bwyd-amaeth a'r economi gylchol: ei Chanolfan Bioburo, Canolfan Bwyd y Dyfodol, Uwch Ganolfan Ddadansoddi a Biofanc Hadau Prifysgol Aberystwyth.

Wedi'i gydleoli ar y safle mae Deorfa ArloesiAber, swyddfeydd ar gyfer busnesau newydd a busnesau bach a chanolig sy'n awyddus i gydweithio ag academyddion Prifysgol Aberystwyth gan ddefnyddio cyfleusterau'r Campws.

Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar y campws ym mis Awst 2020 gan Willmott Dixon, ac yn dilyn cyfnod o gaffael a chomisiynu offer, bu modd i nifer cyfyngedig o wahoddedigion fod yn bresennol i ddathlu'r agoriad swyddogol. Gwahoddwyd grŵp ehangach o randdeiliaid i ymuno'n rhithwir.

Wrth hyrwyddo'r cyfleusterau ymchwil a datblygu newydd, mae tîm ArloesiAber wedi llwyddo i ddenu busnesau i fod yn denantiaid yn Neorfa newydd ArloesiAber, ac ar hyn o bryd mae pob un lle wedi'i lenwi ac mae 14 o gwmnïau arloesol ar y safle.

Hefyd, fel rhan o'r digwyddiad, cymerodd y Prif Weinidog a'r Athro Melanie Welham ran mewn sesiwn holi ac ateb yn edrych ymlaen at COP26 fel rhan o Ŵyl Ymchwil Prifysgol Aberystwyth. Cadeiriwyd y sesiwn gan y darlledwr a chyn-fyfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth, Betsan Powys, a ofynnodd gwestiynau a gyflwynwyd gan staff a myfyrwyr.

Plannwn, yng nghof arbrofi, ein hadau,
a chawn wedyn fedi
cnydau ein syniadau ni:
erw las yw arloesi.

**Hywel M Griffiths**


**D J Evans**
**Cyfarwyddwyr**
**Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**


Uchafbwyntiau'r mis ar **BroAber360.cymru**

**GAIR GAN YR YSGOGYDD**



Helo bawb! Mae 'na wedi bod llwyth o straeon diddorol, aml-gyfrwng ar BroAber360 dros y wythnosau diwethaf. Dyma rhai o'r uchafbwyntiau!


**£10.9M I ABER YNG NGHYLLIDEB 2021**



Diolch i Mererid am gyhoeddi'r newyddion fod y Canghellor, yn ystod cyllideb y Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd Aberystwyth yn cael buddsoddiad o £10.9m ar gyfer prosiect yr Hen Goleg a'r Harbwr. Dw i'n siŵr fydd pawb yn cytuno fod hyn yn newyddion grêt i'r ardal!

**FFOTOMARATHON RHITHIOL YN CREU ARDDANGOSFA GO IAWN**

Cynhaliwyd ffotomarathon flynyddol Aberystwyth yn ddiweddar fel digwyddiad rhithiol, hefo dros 60 o gystadleuwyr yn cystadlu. Eleni roedd bonws ychwanegol gan fod yr holl ddelweddau yn cael eu harddangos yn y Llyfrgell Genedlaethol. Diolch i Deian am y darn, ac am ei waith hefo'r ffotomarathon!



**NEWYDDION PERSONOL**

Ac i gloi'r golofn, rhywbeth gwahanol. Ar ôl bron i dair blynedd yn gweithio ar BroAber360, rydwyf wedi derbyn swydd newydd sydd yn golygu mae dyma fy ngholofn olaf. Diolch i bawb sydd wedi helpu hefo'r wefan - o ddarllen, i greu, i rannu deunydd. Yn enwedig, diolch i Ceris am fod yn gyswllt fo'r papur. Edrychaf ymlaen at ddarllen Y Tincer am flynyddoedd i ddod! Dan.

**Ffili aros tan y papur nesa'?**
**– BroAber360.cymru**

Diolch i Dan am ei waith efo **Bro360**.
Dymuniadau gorau iddo gyda'i swydd newydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

# Y Borth

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs. Heulwen Lewis, Pen-y-wern a'r teulu ar farwolaeth ei modryb - Kate Lloyd o Bontrhydfendigaid.

**Neges o'r Borth i COP26**
Roedd Kim Williams o'r Borth ar raglen y Byd ar Bedwar ar S4C nos Fercher 10 Tachwedd, yn siarad am ei phryderon ar gyfer dyfodol y pentref yn sgîl newid hinsawdd.

Roedd Kim wedi teithio o Geredigion i Glasgow i fod yn rhan o brotest fawr yn galw am weithredu gan arweinwyr rhyngwladol oedd wedi ymgynnull yn y ddinas ar gyfer uwchgynhadledd COP26.

Wrth siarad ar y Byd ar Bedwar, dywedodd Ms Williams bod angen mwy nag isadeiledd newydd i amddiffyn ei chymuned rhag llifogydd posib.

"Da ni angen help gyda *storm boards* neu *storm gates* ond *sticking plaster* ‹di hwn. Mae›n neud i bobl deimlo›n well ond dyw›r broblem ddim yn mynd i ffwrdd.

"Dwi ddim eisiau gadael Borth, mae fy nghalon i yma. Mae gen i hanes fan hyn, felly dwi ddim eisiau symud ond mae'n rhaid i ni fod yn realistig, mae pethau yn mynd i newid.

"Mae rhaid i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Ceredigion gychwyn siarad efo pobl am sut 'da ni'n mynd i fyw a lle da ni mynd i fyw.

"Mae pawb sy'n byw fan hyn yn caru byw ar lan y môr, maen nhw eisiau byw lan y môr. Ond be' sy'n mynd i ddigwydd?"

Mae modd gwylio'r rhaglen gyfan ar wasanaeth Clic – s4c.cymru/clic.



**Ffilmio Hysbyseb**
Bu criw ffilmio arall ar draeth y Borth y mis yma, yn cynhyrchu hysbyseb ar gyfer Croeso Cymru. Cafodd criw o bobl leol yn mynd i mewn i'r môr ar gyfer ychydig o nofio gwyllt ei ffilmio ar gyfer yr hysbyseb.

**Borth 2030**
Caiff cyfarfod cyhoeddus ei gynnal yn Neuadd Gymunedol y Borth rhwng 1.30 – 4yp ar ddydd Sul 12 Rhagfyr. Bydd modd galw heibio unrhyw bryd yn ystod y prynhawn i drafod ac i glywed mwy am y cynlluniau i wneud y Borth yn lle mwy cynaliadwy, mwy hapus ac mwy iach erbyn y flwyddyn 2030. Dylai'r rheiny sy'n gallu wisgo gorchudd wyneb cyn mynd i mewn i'r neuadd. Am fanylion pellach, ewch i wefan neu dudalen Facebook Borth2030, ebostiwch mail@borth2030.wales neu ffoniwch 07921544784.

**Hyb Cymunedol a Chanolfan Deuluol y Borth**
Mae teithiau cerdded "Cerdded Er Lles" wedi ailddechrau ac yn cael eu cynnal bob bore dydd Gwener dan arweiniad Dawn Forster o Ceredigion Actif. Mae'r teithiau cerdded i gyd yn digwydd yn lleol ac yn para rhwng hanner awr ac awr. Mae'r trefnwyr yn cadw at dir gwastad er mwyn gwneud y daith yn hwylus i bawb a'r cyfan sydd ei angen yw par da o esgidiau. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli neu arwain un o'r teithiau cerdded, cysylltwch gyda helen@borthfamilycentre.co.uk.


Mae Hyb Cymunedol a Chanolfan Deuluol y Borth hefyd yn cynnal Her Pedomedr ar hyn o bryd. Hyd yma, mae 34 o bobl wedi ymuno â'r her, gyda'r hynaf yn 93 oed. Teithiau cerdded 'rhithiol' yw'r rhain. Mae aelodau'n derbyn disgrifiad o daith cerdded ar ddechrau pob wythnos ac yna'n cofnodi eu camau dyddiol ar y pedomedr. Ddiwedd yr wythnos, mae arweinydd y teithiau cerdded yn cysylltu er mwyn gweld pa mor bell mae pobl wedi llwyddo i gerdded. Mae digon o bedomedrau



gan y Ganolfan os ydych chi am ymuno yn yr her.

Mae gweithgareddau therapi celf wedi ail gychwyn yn y Ganolfan ac yn cael eu cynnal mewn amglychedd diogel bob prynhawn dydd Llun rhwng 2 a 4 o'r gloch dan arweiniad yr artist lleol Martine Ormerod. Ac ar fore dydd Llun 22 Tachwedd bydd cyfarfodydd y grŵp dementia gyfeillgar yn cychwyn. Os hoffech ymuno, cysylltwch gyda martine@borthfamilycentre.co.uk.

**Pen blwydd Arbennig**
Pen blwydd hapus iawn i Delyth Pryce-Jones oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 oed ar ddydd Sul 14 Tachwedd. Yn enedigol o Gapel Hendre ger Rhydaman, mae Delyth wedi byw yn ardal Aberystwyth ers 1974 ac yn y Borth ers 1985. Cafodd ei hethol yn aelod o Gyngor Cymunedol y Borth ym mis Mai 2019.



**Gefeilliad**
Llongyfarchiadau mawr i Rhydian a Kelly Davies o Glanwern, y Borth, ar enedigaeth eu gefeilliaid. Mae'r ddwy ferch fach yn chwiorydd i Osian sy'n dair oed.

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Rhys Hedd Pugh-Evans (5 Ffordd Clarach gynt) a Katie Mieke Littlewort (yn wreiddiol o Ynys Wyth) ar eu dyweddïad yng Ngwlad yr Iâ ar yr 2il o Dachwedd. Bu Katie yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 2012 a 2015 gan ennill gradd B.A. mewn Llenyddiaeth Saesneg a Drama. Ers graddio mae wedi gweithio yn y gwasanaeth croeso a lletygarwch ac mae bellach yn Bennaeth Priodasau a Digwyddiadau yn Chiswick House, un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llundain. Mae Rhys yn ddyn tân yng Ngorsaf Gogledd Kensington a newydd basio elfen theori'r prawf ar gyfer derbyn Trwydded Yrru Adran C i yrru injan dân. Maent wedi ymgartrefu yn ardal Comin Tooting Bec, De Llundain.





**Eglwys Sant Matthew**
Bydd gwasanaeth Carolau Nadolig yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Matthew am 11:15 ddydd Sul 19 Rhagfyr, dan ofal y Canon Philip Wyn Davies. Ni gafwyd gwasanaeth cyhoeddus y llynedd oherwydd cyfyngiadau'r pandemig ond y gobaith yw y bydd modd ei gynnal fel arfer eleni. Caiff gwasanaeth cymun byr ei gynnal am 3yp ar noswyl Nadolig 24 Rhagfyr.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimladau dwysaf i deulu Wynne Evans (Wynne Pendraig) a fu farw ar 28 Hydref. Yn yrrwr lori wrth ei waith, roedd hefyd yn feiciwr modur brwd ac ar ddydd Sadwrn 6 Tachwedd, fe orymdeithiodd o 53 o feiciau a phedwar o geir drwy'r pentref er cof amdano.

**Organydd**
Mae Eglwys Sant Matthew yn chwilio am organydd llawn-amser ar gyfer 2022. Os oes diddordeb, cysylltwch â Dr Valerie Norrington-Davies ar 01970 871419.

## Calan Gaeaf

Cafodd cystadleuaeth ei chynnal yn Ffordd y Fulfran i wobrwyo'r tŷ oedd wedi›i addurno orau ar gyfer Calan Gaeaf. Llongyfarchiadau mawr i›r enillwyr Gwawr a Luke Worgan a›r teulu, ac i Gwen ac Aled Jenkins a›r teulu a ddaeth yn ail agos. Dyma Gwawr a Luke yn derbyn eu gwobr sef taleb gwerth £25 ar gyfer siop Stars yn Aberystwyth, drwy garedigrwydd Jackie Bat-Isha a Lyn Stevens.






## Llandre

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gweneira Williams ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith - Non Davies – ym Mhenarth.

ac â Gerwyn Powell, Leacroft, sydd wedi colli cefnder yng Ngwyddgrug, Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar.

**Cofion**
Dymuniadau gorau i Ann Protheroe, Ty'n yn Bedw, sydd wedi ymgartrefu ym Mhlas y Cwm. Danfonwn ein cofion ati.

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau mawr i Mari Morgan, Maes Mieri, ar gyrraedd ei phen blwydd yn 18.

Llongyfarchiadau iddi hefyd am gael ei hethol fel un o Lysgenhadon ysgol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddiweddar. Mae Mari yn ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Penweddig. Dymuniadau gorau iddi ar y gwaith.




## Newyddion o'r gorffennol

Mae **Sue Dalton o'r Borth** wedi bod yn pori yn archifau papurau newydd y Llyfrgell Genedlaethol i ganfod beth oedd gan papurau'r gorffennol i'w ddweud am fywyd yn y pentref yn y 19eg ganrif. Dyma flas o'r hyn oedd yn hawlio'r penawdau yn lleol yn ystod 1871, yn bennaf o'r *Cambrian News* a'r *Aberystwyth Observer*. Byddwn ni'n edrych nôl ar ragor o benawdau hanesyddol yn rhifyn nesa'r *Tincer*.

**1871**
Ym mis Chwefror, agorwyd swyddfa telegraff post yn y Borth.

Ym mis Chwefror a mis Mawrth, roedd pryder am gynnydd mewn achosion o'r frech wen. Cafodd mil o frechiadau eu rhoi yn Sir Aberteifi mewn cyfnod o dri mis ac roedd hynny'n cael ei ystyried yn dipyn o gamp.

Roedd nifer o Ysgolion Sul neu dai wyrcws Canolbarth Cymru a Swydd Amwythig yn anfon plant ar wibdeithiau rheilffordd i'r Borth. Wedi cyrraedd yr orsaf, byddai'r ymwelwyr yn gorymdeithio ar hyd y stryd fawr, yn cael hwyl ar y traeth cyn cael te mewn capel neu westy lleol a'i throi hi am adref. Roedd gorsaf Borth yn cael ei hystyried yn well nag un Aberystwyth ar y pryd gan fod to gwydr dros y platfform yn cynnig cysgod. Roedd cyngherddau, partïon te, gêmau criced a digwyddiadau arall megis sioe gan fentriloquist i gyd yn rhan o galendr yr haf, gydag o leiaf ddeg ar hugain o dai yn y pentref yn cynnig llety yn ogystal â Gwesty'r Cambrian. Roedd pedair tafarn yn y pentref ar y pryd - y Victoria, y Friendship, y Railway a'r Llew Gwyn.

Ym mis Gorffennaf bu farw dyn lleol 80 oed a oedd wedi ymladd yn Waterloo.

Ym mis Hydref fe aeth cyfreithiwr o Fryste â chwmni'r rheilffordd i'r llys gan nad oedd trên oherwydd damwain ac nid oedd unman i aros yn y pentref. Roedd hynny, meddai, wedi esgor ar salwch. Ond dywedodd y barnwr mai anlwc yn unig oedd i gyfrif am y ffaith nad oedd gan y Borth wely na cheffyl i'w gynnig y noson honno.

Ym mis Tachwedd cafodd fforman criw oedd yn gwneud gwaith draenio ar Gors Fochno ei ladd gan drên ar noson wlyb a stormus wrth iddo fynd adref i Ynyslas ac yntau "ychydig" yn feddw.

Fe wnaeth cwch pysgota lleol foelyd mewn moroedd garw, ond cafodd y criw eu hachub gan bobl leol ar y lan.

Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd nifer o wasanaethau eglwysig yn y pentref yn ogystal bu gorymdaith gan y Band of Hope a gorymdaith band pres gan y Grand Order of Oddfellows.

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont


Meim

Cafwyd sawl gweithgaredd difyr iawn yn ystod mis Hydref - diolch i'r arweinwyr am drefnu. Roedd yna dipyn o gystadlu brwd yn y noson Tipit, a drefnwyd gan Mair, gyda chymorth Carwen Pantyperan. Llongyfarchiadau i Gwawr, Nel a Cari ar ennill pob rownd, ac yna'r bencampwriaeth. Yr un oedd y brwdfrydedd pan gafwyd noson Tasgfeistr ar y 12fed, sef heriau tebyg i'r hyn sydd i'w gweld ar y rhaglen deledu boblogaidd, 'Taskmaster'. Roedd llawer o grafu pen er mwyn cwblhau'r heriau - go dda, Lowri, am achosi sawl penbleth ddifyr! Mae mis Hydref bob amser yn eithriadol o brysur i aelodau'r Clwb, wrth i ni baratoi ar gyfer yr Eisteddfod flynyddol. Braf oedd cael mynychu'r digwyddiad ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar nos Iau 28 Hydref a dydd Sadwrn 30 Hydref. Cael a chael oedd hi y byddai digon o aelodau ar gael i gystadlu gyda'r Meimio, wrth i Covid whare wic a whiws. Braf dweud bod pawb a fu'n sal wedi dod drosti'n ddidrafferth. Er gwaetha'r cyfnod byr o ymarfer, fe fwynhaeodd y criw dethol y cystadlu'n fawr - a llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth honno. Diolch yn fawr iawn i Elen Pen-cwm am drefnu'r caneuon ac am hyfforddi'r criw. Roedd yna sawl unigolyn yn cystadlu hefyd, ac fe serenodd Cadi a Beca Williams drwy gydol yr ŵyl - llongyfarchiadau i Cadi ar ddod yn 3ydd yn yr Unawd Alaw Werin dan 28 oed, ac am ddod yn gydradd 3ydd gyda'i chwaer Beca yn y gystadleuaeth canu Deuawd. Fe enillodd Cadi'r dwbwl hefyd - yr Unawd allan o Sioe Gerdd a'r gystadleuaeth Canu Emyn. Diolch yn fawr iawn i chi'ch dwy am chwifio'r faner dros y clwb a llongyfarchiadau ar eich llwyddiant arbennig.

**Mari Gibson**


Heriau hwyliog


Cari, Nel a Gwawr

## Clwb Golff y Borth ac Ynys-las



**Cystadleuaeth Pytiwr John Lewis**
Llongyfarchiadau i Nans Morgan, Llywydd Clwb Golff y Borth ac Ynys-las ar ennill cystadleuaeth arbennig Pytiwr John Lewis. Dyma John a Sonja Lewis yn cyflwyno'r pytiwr i Nans yng nghwmni Karen Evans sydd newydd orffen fel Capten.

**Adran Iau**
Dros yr wythnosau diwethaf cynhaliwyd sesiynau i'r adran iau, gyda 30 o blant a phobl ifanc yn mynychu sesiwn blasu cychwynnol. Mae nifer ohonynt wedi parhau gyda'r sesiynau wythnosol ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r adran yma. Diolch i John Lewis, Pro Clwb Borth ac Ynys-las am yr hyfforddiant ac i Sue Wilson ac Angharad Basnett sy'n cynorthwyo.

**Capteiniaid Newydd**
Mae Capteiniaid newydd wrth y llyw yn y clwb, gyda Mair Jenkins a Bob Gill yn cymryd yr awenau drwy arwain y 'Drive In' blynyddol. Pob dymuniad da i'r ddau dros y flwyddyn nesa. Llongyfarchiadau i'r ddau is-gapten am y flwyddyn, sef Lynda Evans a Dave Blesovsky.

Ar ddiwedd eu cyfnod nhw fel capteiniaid, diolchwyd yn arbennig i Karen Evans a Jeff Evans am eu holl waith yn ystod flwyddyn heriol arall yng nghanol y pandemig.


Cynhaliwyd cystadleuaeth naw twll yn dilyn y 'Drive In', gyda Ruth Jones yn cipio'r wobr yn adran y menywod a Roy Jones yn adran y dynion.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau tuag at elusennau'r ddau gapten a chodwyd £200 ar gyfer Canser Macmillan a'r Care Society.


**Jeff Evans a Karen Evans yn trosglwyddo awenau'r capten i Bob Gill a Mair Jenkins**

# Cynghorion COP26

**Enillodd Cynog Dafis sedd seneddol Ceredigion o 1992-2000 mewn clymblaid rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Werdd oedd wedi cydweithio efo fo ar nifer o fentrau amgylcheddol. Fel un oedd yn gweithredu er gwryddni ers 1962 gwahoddwyd ef yn dilyn COP26 sut y gallwn ni fel unigolion a'n cymunedau ymateb er gwell.**



Ystyr COP26 yw bod dynoliaeth, yn y priffyrdd a'r caeau, ac yn llywodraethau'r byd, wedi sylweddoli bod rhaid i ni i gyd newid ein ffordd o fyw os am osgoi dinistr. Mae'r sgrifen ar y mur ers degawdau, ers 1992 yn arbennig, pan gytunodd y cenhedloedd yng Nghynhadledd Rio i sefydlu'r broses o gydweithio rhyngwladol yr oedd COP26 yn rhan ohoni. Gwarthus o araf fu'r gweithredu ers 1992 ond bellach aeth yn ben set, a thywydd eithafol a thrychinebau yn arwyddion sicr bod yr argyfwng hirddisgwyliedig yn gafael go-iawn.

Gofynnodd y golygydd am awgrymiadau ynghylch beth allwn ni, werin Ceredigion ei wneud i gyfrannu at y newid mawr sy'n dod. Hawdd iawn i'n siort i ddoethinebu, a'r morgais wedi'i glirio a'r pensiwn yn llifo i mewn, ond dyma rai cynghorion.

Y cyngor cyntaf i bawb yw, **Cymrwch ddiddordeb**. Rhaid i ni i gyd ymroi i ddeall beth yw effaith pob un o'n gweithredoedd, yn brynu a gwerthu, yn deithio, yn hamddena, yn fwyta, ar y byd naturiol sy'n gwneud ein bywydau'n bosibl. Ymhob dim **peidiwch gwastraffu**. Yn hytrach na phrynu pethau newydd, ystyriwch **gyweirio neu addasu'r hyn sy gyda chi.** Mae dyddiau'r taflu rhwydd a'r siopa difeddwl yn mynd i orfod dirwyn i ben.

Os ydych chi'n **rhedeg busnes,** trïwch ragweld y ffordd y bydd y farchnad yn symud yn yr amgylchiadau newydd. Beth fydd y nwyddau y bydd pobl eu hangen yn y dyfodol? Ystyriwch sut y gall osgoi **gwastraff – ym myd ynni** er enghraifft – leihau'ch costau a chynyddu'ch elw. Paratowch at y lleihad yn nefnydd plastig sy'n bownd o ddod ac osgoi gormod o ddeunydd lapio. Cofiwch mai nwyddau i bara, nid nwyddau i'w taflu, fydd ffasiwn y dyfodol. Marchnatwch eich hun fel busnes cynaliadwy.

Os ydych chi'n **ffarmio da byw**, daliwch ati. Ond byddai'n fuddiol i chi ystyried beth yw'r **porthiant**, yn enwedig y protin, sy'n mynd i foliau'ch anifeiliaid. Ydych chi'n ddibynnol ar soya y mae fforestydd yr Amazon yn cael eu cwympo er mwyn ei dyfu? Oes modd cael ffynhonnell amgen, a hynny mor lleol â phosibl. Ac a oes modd **arallgyfeirio** i gnydau megis y llysiau y bydd galw cynyddol amdanyn wrth i ddeiet y cyhoedd newid? Cynlluniwch eich gwaith fel ag i **osgoi teithio a chludo dros belter**. A gweddïwch y daw hydrogen (gwyrdd) yn lle diesel i yrru'ch peiriannau cyn gynted â phosibl.

**Chi'r ifainc** sy'n gyrru'r newid ond mae gyda chithau hefyd lawer i'w ddysgu. Cawsoch eich magu – o leiaf y ffodus - yn oes digonedd a gwastraff. Bydd rhaid i chi ddysgu **diffodd y golau a gwisgo dillad cynnes yn y tŷ** yn hytrach na throi'r gwres fyny. Bydd y rhai ohonoch yn arwain y chwydro technolegol sy'n cynnig rhan o'r ateb i'n picil presenol. Ond gobeithio y sylwch chi ar rybudd Gretta Thunberg bod **angen mwy na dyfeisgarwch technolegol**: rhaid newid ein ffordd o fyw. Beth, er enghraifft, am ddatblygu math newydd o adloniant sy ddim yn dibynnu ar fewnbwn mawr o ynni? Pob bendith i chi'r ifainc yn enwedig, a phob lwc gyda'r chwyldro sydd o'ch blaen.

**Cynog Dafis**
**13.11.21**

## Dolau

**Gwella**
Da deall fod Gwenno, Tŷ Nant, yn gwella ar ôl torri ei choes mewn damwain wrth sglefyrddio yn ddiweddar. Gobeithio y caiff wared o'r plastar yn fuan.


Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992



GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com



SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312



GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ





01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580



Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Penrhyn-coch

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Noah, Magi a Nel Rees, Glan Seilo, ar farwolaeth eu tad-cu – Hugh Owens Rowlands, Fferm Erglodd, Taliesin ar 23 Hydref.

Ac â Miriam Garrett a'r teulu, Ger-y-llan, ar farwolaeth cefnder – Delwyn Tibbott yng Nghaerdydd ar 8 Tachwedd.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Lowri a Trevor Gore ar enedigaeth merch – Aria Lili Gore ar 28 Hydref; wyres i Glenys a Peter Morgan.

Ac i Esther Morgan, Glan Ceulan, ar ddod yn fam-gu; ganwyd merch fach – Leila Rose – i Rhys a Lynsay.

**Pen blwydd hapus**
Dymuniadau gorau i Sioned Exley a ddathlodd ei phen blwydd yn 21 oed yn ystod y mis.

**Symud aelwyd**
Dymuniadau gorau i Meirion a Rhian Roberts, Nesta ac Esyllt sydd wedi symud o'r Ddôl Fach i Glan Ceulan.

## Ymddeol

Mewn cyfarfod â swyddogion Cymdeithas Cymru-Ariannin yn ddiweddar cyflwynwyd rhodd ar ran aelodau y Pwyllgor Gwaith o lechen gydag englyn arno a gyfansoddwyd gan Mererid Hopwood i'r achlysur i Ceris Gruffudd a ymddeolodd o fod yn Ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin ar ôl 23 mlynedd.

Rhwng gorwel pob ymweliad, estynnaist
Dy wên yn gysylltiad
Ceris, a thros fôr cariad
yn dy law unwyd dwy wlad.

**Mererid Hopwood**



**Priodas arian**
Llongyfarchiadau i Catrin a John Galbraith ar ddathlu eu priodas arian (25ml) yn ddiweddar.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Planhigion meddyginiaethol oedd testun sgwrs Bethan Wyn Jones yn y cyfarfod ar yr 20fed o Hydref. Astudiodd Bethan swoleg yn Aberystwyth ac mae wedi gwneud llawer dros y blynyddoedd i boblogeiddio'i phwnc. Mae'n cyfrannu'n gyson i raglen natur a bywyd gwyllt Radio Cymru, Galwad Cynnar, ac mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau yn y maes.

I ddechrau, soniodd rywfaint am hanes defnyddio planhigion meddyginiaethol drwy'r canrifoedd a'r ffaith bod y mynachod yn eu tyfu. Yna cawsom wybodaeth ddiddorol am bob math o blanhigion, llawer ohonyn nhw'n tyfu'n wyllt yn y cloddiau, fel milddail, rhosyn gwyllt, danadl poethion ac erwain. Mae gan lawer o'r planhigion hyn fwy nag un enw a gwahanol rai yn ddefnyddiol at wahanol bwrpasau. Roedd y cyfan yn codi awydd ar rywun i sylwi mwy a bod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd o'n cwmpas, yn enwedig ar ôl bod yn cerdded llwybrau'r ardal yn ystod y cyfyngiadau sydd wedi bod arnom yn ddiweddar.

Noson werth chweil, yn llawn gwybodaeth ac afiaith gan rywun sy'n feistr ar ei thestun.

**Ennill cystadleuaeth croesair**
Llongyfarchiadau i Llio Adams, Glyn Helyg, ar ennill cystadleuaeth croesair y papur bro *Lleu* (Dyffryn Nantlle).

**Cangen Bro Dafydd**
Nos Wener 29 Hydref cyfarfu cangen Bro Dafydd Plaid Cymru trwy gyfrwng Zoom. Mae Bro Dafydd yn cynnwys yr aelodau hynny sy'n byw yn wardiau Trefeuring a Melindwr. Yn ystod y cyfarfod etholwyd swyddogion newydd sef y canlynol: Cadeirydd - Dr Rhun Emlyn; Is-gadeirydd - Delyth James; Ysgrifennydd - Richard Owen; Trysorydd - Gwenllian Mair. Dymunwyd yn dda i Haydn Foulkes ar ei ymadawiad â'r ardal. Bu Haydn yn drysorydd y gangen am flynyddoedd tra oedd yn byw ym Mhenrhyn-coch, ac yn ffyddlon ei wasanaeth fel dosbarthwr taflenni a chanfasiwr.

Yn ystod y cyfarfod trafodwyd paratoadau ar gyfer dewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Cyngor Sir Ceredigion yn Nhrefeurig a Melindwr sydd i'w cynnal fis Mai 2022.

Penderfynwyd hefyd drefnu cyfarfod agored ddechrau 2022 i edrych ar bwnc swyddi a chartrefi i bobol ifainc yng nghefn gwlad. Gobeithir tynnu panel ynghyd i drafod pwnc sydd o bwysigrwydd allweddol yn ein hardaloedd.



**Priodas**
Ddydd Sul, 3 Hydref yng Nghapel Fitzrovia Llundain, priodwyd Nelum Gunashinghe ac Antony Collyer. Bu Nelum a'i mam, Anita, yn byw yn 13 Glan Seilo am flynyddoedd a Nelum yn ddisgybl yn Ysgol Pen-glais. Yn dilyn y gwasanaeth cludwyd y gwesteion i'r neithior yn Brunswick House, Vauxhall yn un o Fysiau Coch, Llundain. Roedd Menna Lloyd Williams a fu'n gymydog i'r teulu ym Mhenrhyn-coch yn un o'r gwahoddedigion. Mae Nelum a'i gŵr a Lars y gath bellach wedi ymgartrefu yn Leyton, Llundain a Nel yn gynhyrchydd cyfres i'r rhaglen deledu - 'The Sunday Brunch' a ddarlledir ar Sianel 4 ar foreau Sul.

**Cylch Meithrin Trefeurig**
Plant y Cylch wedi creu llun ar gyfer Sul y Cofio,/ Y plant wedi gwisgo ar gyfer gweithgareddau a pharti calan gaeaf yn y Cylch.






**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Paul a Sarah Thomas ar enedigaeth merch fach - Eva Lily - ar 19 Hydref. Wyres i Dennis a Susan Thomas, Glan Ceulan; chwaer fach i Cameron, Dexter a Ffion.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
**Tim Cyntaf**
23 Hydref Penrhyn-coch 0 Llanrhaeadr-ym-Mochnant 0
6 Tachwedd Penrhyn-coch 2 Gresffordd 1

**Eilyddion**
16 Hydref - rownd 3 Cwpan J Emrys Morgan Eilyddion Penrhyn-coch 1 - Llanidloes 2
6 Tachwedd Aberriw 1 Eilyddion Penrhyn-coch 3

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Ceinwen Jones, Felin-fach ( gynt o Penrhyn-coch) sydd yn Ysbyty Bron-glais fel yr â'r *Tincer* i'r wasg.

**Helfa lygod Penrhyn-coch**
Am wythnos gyfan o 23-30 Hydref bu Penrhyn-coch yn fwrlwm o dditectifs yn helpu Penri, Llygotwr y Llan, i chwilio am y llygod oedd wedi dianc o Eglwys Sant Ioan yn y pentref. Roedd deunaw i gyd ar hyd a lled yr ardal a'r gamp i'r ditectifs oedd dod o hyd iddyn nhw i gyd. Er gwaetha'r glaw a'r stormydd fe fu nifer yn chwilio yn ddyfal amdanyn nhw gyda sawl un yn llwyddo i ddod o hyd i bob un llygoden. Y teulu Emlyn a enillodd y wobr gyntaf, a'r gwobrau eraill gan Casi, Nel, Liwsi, Miriam, Florence, Ifan a Myfi.

Trefnwyd yr holl hwyl gan Meriel Ralphs gyda help Delyth Ralphs ac Edwina Davies. A hwy hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu'r Te Cynhaeaf mewn Blwch. Yn dilyn llwyddiant y Te Mefus mewn Blwch yn yr haf roedd dros 50 o bobol wedi archebu'r blychau arbennig yn cynnwys gwledd fach ar gyfer tymor y cynhaeaf. Daeth y rhan fwyaf i'w casglu o ardd Neuadd yr Eglwys brynhawn Sadwrn 30 Hydref gyda Meriel yn dosbarthu'r gweddill o dŷ i dŷ yn ddiweddarach yn y dydd.

Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r digwyddiad trwy chwilio am y llygod, prynu'r blychau a nwyddau eraill ar y Sadwrn. Diolch arbennig hefyd i Siop a Swyddfa'r Post Penrhyn-coch a Garej Tŷ-mawr am fod mor barod i werthu'r ffurflenni cystadlu. Codwyd dros £500 ar gyfer yr eglwys a'r neuadd trwy'r gweithgareddau hyn. Diolch unwaith eto i bawb.



## Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch

Cynhaliwyd parti Calan Gaeaf llwyddiannus yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch a chafwyd llawer o hwyl a sbri! Codwyd £220 tuag at adran iau Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Dyma enillwyr y gystadleuaeth cerfio pwmpen.





Sahara, Ollie Richards, Cayden Holmes, Amelia Surgey, Zac Surgey a Noah Jones.




**Brownies Penrhyn-coch**
Moli, Nia a Florence a'i harweinwyr ar ôl gwneud eu haddewid.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Gan fod y niferoedd o achosion Covid yn cynyddu yng Ngheredigion gwnaed y penderfyniad i gynnal cyfarfod mis Hydref trwy gyfrwng Zoom. Cynhaliwyd y cyfarfod o dan gadeiryddiaeth ein Cadeirydd y Cynghorydd Jim Palmer. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth un cynghorydd.

Mae cynrychiolydd o Gyngor Melindwr wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Band Eang Broadway. Mae Cyngor Melindwr yn gweithio ar y cyd efo Cyngor Pontarfynach ar lythyr a fydd yn codi ymwybyddiaeth y trigolion o Band Eang Broadway.

Roedd dau gynghorydd wedi mynychu cyfarfod Neuadd Capel Bangor i gael trafod telerau cytundeb am y darn tir y tu cefn i'r neuadd. Mae nawr angen cael barn y cyhoedd am y syniad o greu parc chwarae ar y safle.

Gobeithir rhoi grantiau bychain i fudiadau lleol i gefnogi gweithgaredd neu prosiect. Bydd angen gwneud cais erbyn Rhagfyr 31 2021. Cysylltwch â'r clerc naill ai trwy lythyr neu trwy ebost- cyngormelindwrcouncil@gmail.com; bydd y ceisiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod Ionawr 2022.

Mae dau gynghorydd wedi ymddiswyddo, dymuna'r cyngor ddiolch i Richard Edwards ac Amber Humphries am eu hymrwymiad i'r cyngor dros y blynyddoedd. Mae yna sawl sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion pellach

Bydd y cyfarfod nesaf ar y trydydd nos Iau o Dachwedd. Oherwydd y sefyllfa efo Covid, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom.

# Bow Street

**Suliau Noddfa**
Tachwedd
28 Cyfeillach am 10.00


**Rhagfyr**
5 Richard Lewis. Y Garn yn Uno.
12 Richard Lewis. Cymundeb
19 Oedfa Nadolig
26 Dim Oedfa

**Suliau y Garn**
Yr oedfaon i'w cynnal yn y Garn am 10 o'r gloch oni nodir yn wahanol

*Tachwedd*
21 Gweinidog
28 Gweinidog

*Rhagfyr*
5 Cydaddoli yng Nghapel Noddfa
12 Rhidian Griffiths
19 Gwasanaeth Nadolig teuluol am 10 o'r gloch
Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau am 5 o'r gloch dros Zoom
25 Gwasanaeth cymun ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog
26 Oedfa fer i'r ofalaeth.

**Mis Hydref yng Nghapel y Garn**
**Y Gymdeithas Lenyddol**
Swynol, diddorol a difyr oedd cyflwyniad Robat Arwyn i'r Gymdeithas ar sŵm ar Hydref 15$^{fed}$, dan y teitl Y Gair tu ôl i'r Gân. Yn ogystal â sgwrs am hanes y geiriau oedd wedi sbarduno ei gyfansoddiadau cerddorol, cawsom berfformiadau caboledig ganddo o'r caneuon, i'w gyfeiliant ef ei hun ar y piano.



**Oedfaon y Sul**
Cynhaliwyd Oedfa Gymun dan ofal y Gweinidog yng nghapel Bethlehem Llandre fore Sul Hydref 17$^{eg}$; ar Hydref 24$^{ain}$ cafwyd Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol yng Nghapel y Garn, dan arweiniad y Gweinidog a hyfryd oedd clywed lleisiau ifainc yn cymryd rhan; ar Hydref 31$^{ain}$ bu Cynog Dafis yn arwain gwasanaeth wedi ei seilio ar y llyfr a gyhoeddwyd ganddo yn ddiweddar sy'n dangos pa mor berthnasol yw gweithiau William Williams Pantycelyn i'n problemau ni heddiw.

**Enillydd**
Llongyfarchiadau i Shirley Rowlands ar ennill tocyn llyfr yng nghystadleuaeth Croesair papur bro *y Ddolen* Hydref 2021.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Gwen Cole a'r teulu a Gwyneth Edwards, Pen-y-garn, ar farwolaeth eu modryb – Kate Lloyd o Bontrhydfendigaid.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Jackie Willmington, frifodd ei chefn ar daith gerdded yn ddiweddar.



**Priodas**
Dymuniadau gorau i Alex Vearey-Roberts a Sarah Lebiner a briodwyd yn Nanteos ar 27 Hydref.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Dyma dymor arall wedi dechrau i ni yma yn Rhydypennau. Cawsom ein cyfarfod cyntaf ar Medi 13$^{eg}$ mewn pabell fawr yng nghefn Tafarn Rhydypennau er mwyn cadw at reolau y Pandemic. Croesawyd ni yn gynnes gan Marian Beech Hughes, ein Llywydd, a dywedodd mor falch oedd o weld cymaint ohonom wedi dwad ynghyd. Penderfynwyd ein bod am gael tri chyfarfod at y Nadolig, a phenderfynu ar y misoedd nesaf tua'r Nadolig. Cafwyd paned a chacen flasus iawn gan staff y Dafarn.

Hydref 13$^{eg}$ cyfarfum yng Nghapel y Garn am 2 o'r gloch, trwy garedigrwydd y Swyddogion. Croesawyd ni gan Marian. Ein gwraig wadd oedd Gillian Olewics o Landre. Cafodd Gillian a'i gŵr wahoddiad i fynd i weithio mewn ysbyty yn Saudi Arabia. Ardal sobor o dlawd, roedd rhaid bod mor ofalus wrth wneud bwyd, achos y pryfed yn y blawd a'r reis! Ond arhosant yno am ddwy flynedd. Cawsom luniau yn dangos cyflwr y tai a'r adeiladau mewn llawer o bentrefi o gwmpas. Roedd yn sgwrs ddiddorol dros ben. Diolchodd Marian yn gynnes iawn i Gillian.

Tachwedd yr 8fed cyfarfum yn Neuadd Rhydypennau am 2 o'r gloch. Croesawyd ni gan Marian. Ein gwraig wadd oedd Medi Jackson sydd yn byw yn ein mysg gyda'i gŵr a'r plant, Anest ac Elis, ers sawl blwyddyn bellach. Awdures yw Medi, ac yn ysgrifennu llyfrau i blant. Y ferch Anest wnaeth iddi feddwl am ysgrifennu am hanes merched enwog o Gymru, gan nad oes llyfrau Cymraeg i gael ar y pwnc. Mae Medi wedi ysgrifennu dau lyfr yn barod *Genod Gwych a Merched Medrus* (Y Lolfa) ac mae'r trydydd ar y gweill! Disgrifiodd i ni, a dangos lluniau, ar sut mae hi yn paratoi i ysgrifennu. Diolchwyd yn fawr iawn i Medi gan Mair Lewis.





Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ragfyr y 13eg pryd y cawn gwmni Eryl Evans, Llandre yn dangos sut i wneud rhai crefftau at y Nadolig. Dowch a siswrn a bocs, maint bocs esgidiau efo chi! Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Pen blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Tegwyn Evans, Maes Afallen fydd yn cyrraedd oed yr addewid ar y 15fed o Dachwedd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Robert Pugh, 3 Maes Ceiro, ar golli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Yr oedd John yn ŵr i chwaer y ddiweddar Felicity a bu'n gweithio yn y banc yn Aberystwyth ar un cyfnod.

**Noddfa**
Y mae aelodau Noddfa wedi rhoi cryn sylw i gefnogi nifer o elusennau dros y misoedd diwethaf ac erbyn hyn gellir adrodd bod £1,000 wedi ei anfon at Apêl Haiti Cymorth Critstnogol a £553 at WaterAid. Bydd Sion Meredith yn dod atom i'r Gyfeillach ar y 28ain o Dachwedd a hyderir y byddwn yn gwneud casgliad at achos lleol yr adeg hynny.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Caryl Clarke yn dilyn cael trawsblaniad aren a pancreas ganol mis Hydref.

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd



**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Lyn Evans a'r teulu, Deilyn, Cefn-llwyd ar farwolaeth eu modryb – Kate Lloyd o Bontrhydfendigaid.

**Marchnad Aberystwyth (2207)**
Gwelwyd mwy o werthwyr nag a ddisgwylid ar Dachwedd 6 a chafwyd gwerthiant hwyliog trwy'r dydd gyda phrisiau fel a ganlyn:

Defaid lladd (625) arg (ar gyfartaledd) £56 10 Mwy (mwyafrif) £115 gan Pryce, Ciliau Uchaf, Ciliau Aeron.
Hyrddod (15) arg £96 Mwy £460 gan Evans, Pendre, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Defaid ac ŵyn (128) arg £53.75 Mwy £94 gan Pugh, Rhyd-yr-Aderyn, Cemaes.

Ŵyn stor (1429) arg £76.20 Mwy £120 gan Lewis, Tŷ Llwyd, Pennant.


Prisiau da iawn heddiw – yn enwedig am yr ŵyn. Roedd yna ddigon o brynwyr yn bresennol. Roedd Aled Ellis yn diolch i bawb am eu cefnogaeth.












# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Oedfaon y Sul, Capel Pen-llwyn**

*Tachwedd*

14 Gweinidog, Dr. Watcyn James (Gwasanaeth Cymun) 10.00

28 Gweinidog 2.00

*Rhagfyr*

5 Dr. John Tudno Williams 10.00

12 Gwasanaeth Teulu, Nadolig Gweinidog 11.15 (SYLWER)

19 Oedfa Gair a'r Geiriau Capel y Garn 5.00

26 Oedfa ar Zoom Gweinidog 10.00

**Dathliad arbennig**

Llongyfarchiadau cynnes i Mrs. Nan Howells, Glyn Dwylan, a ddathlodd ei phen blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Mae hi yn cael gwyliau bach yng Nghartref Tregerddan ar hyn o bryd. Pob dymuniad da, hyderwn y bydd yr iechyd yn gwella gyda hyn.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn, fel ardal, â Miss Delyth Davies, Maencrannog, a Miss Iona Davies, Y Nyth, Llanilar wrth iddynt golli eu mam, Mrs. Anne Davies, Maencrannog yn ddiweddar.



**Cylch Meithrin Pen-llwyn**

Cyn gwyliau'r hanner tymor, canolbwyntiwyd ar yr Hydref. Buom yn astudio'r dail yn cwympo ac yn newid eu lliw a fel mae byd natur yn paratoi ar gyfer y Gaeaf. Methwyd cynnal ein Parti Calan Gaeaf arferol am yr ail flwyddyn yn olynol i godi arian i'r Cylch felly cynhaliwyd parti bach yn y Cylch yn lle hynny. Os oes gennych blentyn rhwng 2 a 4 oed yna mae croeso iddo/iddi ymuno â ni. Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9yb - 3yp yn ystod y tymor ysgol.

**Teyrnged i Mrs Anne Davies, Maencrannog, Pen-llwyn (1925-2021)**

Fe'i ganed ar Fehefin 4$^{ydd}$, 1925 yn blentyn hynaf i Hugh a Sophia Williams, Tynrhelyg, y Borth. Cafodd blentyndod hapus gyda'i thair chwaer a'i dau frawd ac ar hyd ei hoes roedd gan Y Borth le agos at ei chalon. Mynychodd Ysgol Gynradd y Borth a thua diwedd ei chyfnod yn yr ysgol gynradd dioddefodd salwch a'i gorfododd i dreulio misoedd yn ei gwely a cholli bron i flwyddyn o ysgol. Yn unol â'i natur benderfynol, ddi-ildio, aeth ati i ddysgu canu'r piano yn ystod ei chyfnod o salwch - rhaid oedd gwneud y defnydd gorau o'r amser! O Ysgol y Borth aeth i Ysgol Ramadeg Ardwyn, Aberystwyth. Pan oedd yn ddisgybl yno, symudodd y teulu o Dynrhelyg i fferm Maenelin Uchaf, Llanddeiniol. Arhosai gyda'i modryb yn Llanbadarn yn ystod yr wythnos, yn hytrach na theithio'n ddyddiol o Landdeiniol i Aberystwyth. Roedd wrth ei bodd â gwaith academaidd, gan fwynhau pynciau gwyddonol a mathemateg yn arbennig. Ar hyd ei hoes, roedd wrth ei bodd yn ymdrin â ffigyrau ac nid oedd yn gallu deall nad oedd pawb yn rhannu'r un diddordeb. Penderfynodd ddilyn gyrfa ym maes addysg ac aeth i Goleg Hyfforddi Athrawon yn Abertawe. Ar ddiwedd y cwrs, derbyniodd swydd yn Llundain – yn ysgol Canterbury Road, Leytonstone. Ar ôl tua thair blynedd yn Llundain, dychwelodd i Sir Aberteifi – i Ysgol Gynradd Aberteifi. Ychydig wedi iddi ddechrau gweithio yno, dechreuodd aelod arall o staff – Martin Davies, Glandewi, Llangrannog – ac yn Ebrill 1953 priododd y ddau. Ym 1955, cafodd Martin Davies swydd Prifathro yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn a olygai bod Anne yn dychwelyd i ogledd Sir Aberteifi a chafodd swydd yn Ysgol Gynradd Penparcau. Gadawodd ei swydd ym Mhenparcau pan anwyd Delyth. Dychwelodd i ddysgu ar ôl magu Delyth a Iona, gan gyflenwi mewn nifer o ysgolion lleol, cyn cael swydd barhaol unwaith eto yn Ysgol y Babanod Penparcau ac yno y bu nes iddi ymddeol yn gynnar ym 1980. Treuliodd Anne y rhan fwyaf o'i bywyd yng Nghapel Bangor, gan chwarae rhan amlwg yn y pentref – yn aelod brwd o Sefydliad y Merched ac o Ferched y Wawr, pwyllgor yr NSPCC ac yn athrawes Ysgol Sul. Cafodd ei dewis i fod yn Ynad Heddwch ym 1968, gan wasanaethu ar y fainc yn Llanbadarn i ddechrau ac yna yn Aberystwyth, a hynny tan iddi ymddeol ym 1995. Bu hi'n hynod o gefnogol i'w gŵr ym mhob dim a wnâi - yn ei ddyletswyddau proffesiynol ac wrth iddo gyfrannu tuag at fywyd yr ardal. Roedd y ddau yn deall ei gilydd yn berffaith. Bu'n fam ofalus a chefnogol iawn i Delyth a Iona.

Roedd yn gosod safonau uchel iawn iddi ei hun ac eraill – roedd yn rhaid i bob dim fod yn berffaith. Byddai wrth ei bodd gyda gwaith llaw – gwnïo, gwau a chrosio. Roedd yn treulio oriau yn sicrhau bod pob dim yn gywir a thaclus. Bu'n cynnal dosbarthiadau crosio i'w chydaelodau yn Sefydliad y Merched.

Roedd ganddi ffydd real yn yr Arglwydd Iesu Grist ac yn gweld pwysigrwydd y Gair a gweddi. Roedd yn paratoi'n drylwyr ar gyfer ei dosbarthiadau Ysgol Sul a'r dosbarthiadau Beiblaidd.

Nid oedd yn berson cyhoeddus ac ni fynnai ddenu sylw. Roedd yn ddoeth a phwyllog ac nid oedd yn un a ddeuai i benderfyniad yn gyflym. Cymerai bopeth o ddifrif ond meddai hefyd ar hiwmor iach, gan fedru chwerthin ar ei phen ei hun.

Wynebodd salwch diwethaf ei gŵr gyda dewrder, gan roi'r gofal gorau iddo er ei bod yn ei hwythdegau. Pan fu farw Martin collodd ran ohoni hi ei hunan, ond ni chwynodd erioed ond cario ymlaen yn ddewr a chyda'r penderfyniad bod yn rhaid iddi wynebu'r dyfodol yn gadarnhaol. Cyn y pandemig, câi gryn fwynhad o weld pobl yn galw, gan fwynhau sgwrs. Bu colli hyn yn ystod y cyfnod clo yn dipyn o siom iddi. Ni fu'r tair blynedd olaf yn hawdd, ond roedd yn wynebu aml i gyfnod anodd gyda phenderfyniad, gan ddweud 'Fe ddof yn well eto'. Ond er gwaethaf y penderfyniad, rhaid fu ildio yn y diwedd.

Ddydd Gwener, Hydref 29$^{ain}$, bu farw yn dawel yn ei chwsg a chynhaliwyd angladd preifat yng Nghapel Pen-llwyn dan ofal ei gweinidog, Y Parchedig Ddr R. Watcyn James, ddydd Sadwrn Tachwedd 6$^{ed}$, 2021.

**Merched y Wawr Melindwr**

Mynychodd 12 aelod ein cyfarfod ar yr ail o Dachwedd gyda llawer o ymddiheuriadau.Trist iawn oedd cofnodi bod dwy o'n chwiorydd wedi ein gadael yn ystod y pythefnos diwethaf. Collwyd Mrs Angharad Jones a Mrs Anne Davies, aelodau ffyddlon dros bron 40 mlynedd. Rydym yn well am bod wedi ei hadnabod am iddynt adael dylanwad arbennig arnom a bydd colled ar ei hôl. Cydymdeimlwn yn ddwys â'u teuluoedd.

Croesawyd ein gŵr a gwraig gwadd - sef Dr Alan Axford a'i ferch Dr Rachel Rahman atom. Sefydlwyd yr elusen Hospice adref gan wirfoddolwyr Aberystwyth HAHAV yn 2015 gyda siopau yn Stryd y Wig. Bwriad gwreiddiol yr elusen oedd cynorthwyo pobol oedd yn dioddef o'r salwch Cancr ac i wella amgylchiadau eu bywydau gan Ofal Liniarol.

Erbyn hyn mae y gwasanaethau yn datblygu i gynnwys pobl sydd â gwahanol mathau o salwch fel Parkinson a Dementia.

Mae'r elusen erbyn hyn yn canolbwynyntio yng Nghanolfan Plas Antaron gyda gwasanaeth yn cael ei gynnig

i'r gofalwyr hefyd. Yn bresennol mae 60 o wirfoddolwyr yn darparu y gwasanaethau ond mae angen llawer mwy. Gall unigolion neu ofalwyr ofyn am y gwasanaeth hyn heb fynd trwy y gwasanaethau Iechyd, neu feddyg. Mae'r siop wedi gweld amser anodd trwy gyfnod y Pandemig ond nawr maent yn derbyn cyfraniadau hael yn cynnwys dodrefn wrth agor uned arbennig ar Ystad Glanrafon. Diolchwyd i'r ddau am roi eu hamser i ddod atom.

Rydym yn edrych ymlaen i ddathlu'r Nadolig gobeithio y mis nesaf gyda chinio yn cynwys tocyn trên i fynd â ni lan at Y Consti.

**Pobol y Cwm**

Yn rhifyn Mai cafodd Hal Young, Gwarcwm, ei longyfarch am ennill gradd Meistr mewn astudiaethau ffilm. Amser cyffrous iddo, wedi cael gwaith dros dro tu ôl i'r llenni yn 'Pobol y Cwm' Lwc dda iti Hal.

**Siop yr Exchange**

Mae'n dda deall y bydd Siop yr Exchange yn ailagor yn ystod yr wythnos yn dechrau 22 Tachwedd – unai ar y dydd Llun neu y dydd Mercher – gwyliwch y gofod.

# Taith Gylchol Tan-y-bwlch



Y diweddaraf yng nghyfres 'Taith Gerdded yr Wythnos'
Dyma'r diweddaraf yng nghyfres Taith Gerdded yr Wythnos Cyngor Sir Ceredigion

Mae hon yn daith heriol o 9.3km /5.8 milltir gan ddechrau o Draeth Tan-y-bwlch.

Mae'r daith gylchol yma yn eithaf heriol gan ddechrau ar Draeth Tan-y-bwlch. Mae'r daith yn mynd ar hyd hewlydd tawel gwledig ac yn cynnig golygfeydd prydferth o Lwybr Arfordir Ceredigion ar draws Bae Ceredigion.

Cofiwch gadw pellter cymdeithasol bob amser, parchu'r amgylchedd a dilyn y Cod Cefn Gwlad.

Os hoffech fwy o wybodaeth gallwch anfon neges e-bost i Countryside@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881 a gofyn am gael siarad ag aelod o'r tîm Arfordir a Chefn gwlad.

Pob hwyl ar eich taith!



## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 21 Medi 2021 ar Zoom. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Gwenan Price. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Delyth James, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies, Iona Davies a Richard Owen.

Cynllunio: A210794, angen storfa newydd yn Ty'n Cwm, Capel Madog i gwrdd â rheolau amgylcheddol newydd – dim sylwadau; A210760, Kiryas Joel (Blaencastell), y tu draw i Benrhiwnewydd, newid adeilad yn bedwar llety gwyliau – dim sylwadau; A210719, 41 Dôl Helyg, Penrhyn-coch, estyniadau a gwelliannau - dim sylwadau.

Materion eraill: adroddodd y Cynghorydd Dai Mason iddo dderbyn cwynion fod gât wedi'i gosod wrth ymyl Pont Tyngelli sydd i'w gweld yn rhwystro llwybr cyhoeddus. Y Clerc i holi'r Cyngor Sir. Angen gwaith cynnal a chadw ar bostyn y faner yn sgwâr y Penrhyn. Clerc i gysylltu ag Aled Jones. Derbyniwyd cwynion fod dŵr yn casglu wrth borth yr eglwys. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir. Cofeb Dafydd ap Gwilym – angen torri o'i chwmpas ac ystyried a ddylid ailbeintio'r llythrennau.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 19 Hydref 2021 ar Zoom. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Gwenan Price. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Delyth James, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies ac Iona Davies.

Sul y Cofio: penderfynwyd cynnal gwasanaeth byr wrth y gofeb am 10.45am. Ni fyddai gwasanaeth yn yr eglwys ymlaen llaw, ac ni fyddai canu wrth y gofeb. Gofynnwyd i Eirian Reynolds osod baner newydd ar y polyn cyn y diwrnod.

Materion eraill: Cofeb Dafydd ap Gwilym - dywedodd Richard Owen fod y cwmni a lanhaodd y gofeb y tro diwethaf wedi egluro y byddai'r gwaith o ailbeintio'r llythrennau yn iawn yn waith arbenigol. Penderfynwyd holi rhagor am hyn, gan y byddai'r Cyngor yn dymuno i'r gwaith gael ei wneud. Caban bws – roedd y caban bws ger IBERS wedi ei dynnu o'r safle. Roedd angen arwydd newydd yno. Llwybr IBERS – penderfynwyd holi'r Cyngor Sir a ellid cael mwy o olau ar y llwybr i IBERS.

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Deli
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

WELSH YOUTH PARLIAMENT
SENEDD IEUENCTID CYMRU

Mae disgybl ysgol uwchradd o ddalgylch y Tincer yn un o saith ymgeisydd o Geredigion sydd yn sefyll etholiad ar hyn o bryd i gynrychioli'r Sir yn Senedd Ieuenctid Cymru.

Mae'r etholiad ar gyfer y Senedd – sefydlwyd ym 1999 – yn digwydd rhwng 1 a 22 Tachwedd. O'r 60 aelod caiff 40 eu dewis trwy bleidlais ieuenctid 11-18 oed sydd yn mynd i'r ysgol neu goleg yng Nghymru. Bydd 20 aelod arall yn cynrychioli y sefydliadau partner e.e. CFfI Cymru, Tŷ Hafan, YMCA, Urdd ayyb. Roedd yr enwebiadau ar agor i rai rhwng 11 a 18 oed a bydd y buddugol yn cael eu hethol am ddwy flynedd.



Wedi ei eni a'i fagu yng Ngheredigion ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Penrhyn-coch teimla Coby Perch fod ei brofiad fel aelod etholedig o'r Cyngor Ysgol, a'r rhan weithredol chwaraeodd gyda'r cadetiaid awyr ac Ambiwlans Awyr St Ioan wedi bod yn gymorth iddo i weithredu fel aelod pe câi ei ethol.

Gwahoddir ymgeiswyr i ddewis tri mater o bwys a'r tri ddewisodd Coby yw

1 Sicrhau cynhwysiant digidol i bawb
2 Iechyd a lles pobl ifanc
3 Cefnogi adferiad sectorau economaidd

Mae am wneud cyfraniad positif i ddyfodol Cymru; hoffai allu ailennyn brwdfrydedd mewn gwleidyddiaeth i genedlaethau iau.

Roedd Cory a'i frawd yn ddau benderfynodd y Nadolig diwethaf ar ôl gweld apêl ar y cyfryngau cymdeithasol roi teganau nad oeddynt yn dal i'w defnyddio i deulu oedd yn ei chael yn anodd oherwydd salwch y tad.

Dyma'r ail dro i'r etholiad gael ei chynnal; cynrychiolydd tymor cyntaf Ceredigion oedd Caleb Rees o Landysul.

Dymuniadau gorau i Coby yn ei ymgyrch.

Yr aelodau eraill sydd yn sefyll yng Ngheredigion yw Afon Hoare, Gwion Sion Evans, Ifan Meredith, James Scott, Lloyd Warburton, Tabitha Rose ac Elizabeth Duffey.

Gellir cael mwy o fanylion ar wefan Senedd Ieuenctid Cymru seneddieuenctid.senedd.cymru.

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cyfarfu y Cyngor ar nos Iau 28 Hydref yn Festri Capel Noddfa o dan lywyddiaeth y Cyng Robert Pugh. Croesawodd bawb i'r cyfarfod a dymunwyd gwellhad llwyr a buan i'r Gynghorwraig Meinir Lowry.

Nododd y Clerc ei fod yn awyddus i hysbysebu y swydd i lanw sedd wag ar y Cyngor neu i gyfethol os na ddaw ymateb, cytunwyd i'r Clerc ddechrau ar y broses.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Iestyn Hughes am sefyllfa y Wefan, sydd o hyd yn yr arfaeth.

Parhau i ddisgwyl am yr Hysbysfwrdd Cymunedol, ac mae costau y cludo i fod yn ddrud!

Mae angen 75 o bolion i atgyweirio Ffens Cae Chwarae Bryncastell, a bydd rhai o'r Cynghorwyr yn gwneud ymholiadau gyda gwahanol ddarparwyr lleol.

Mae yn amlwg bod y Cyngor Sir yn llusgo traed i ddod i dorri Coed y Gwrych o dan Bryncastell, ac yn tueddu i daflu'r cyfrifoldeb ar berchnogion tai o gwmpas y Gwrych. Parhau yw y disgwyl hefyd i gael gwell golau stryd ger y fynedfa i ystâd Bryncastell. Profwyd y tywyllwch yno ar noswaith cyfarfod y Cyngor!

Y mae'r cais i godi mast telegyfathrebu ger safle Crefftau Pennau wedi ei ganiatáu, ond ni chafodd ein Cyngor wybodaeth, rhaid oedd darllen am y penderfyniad yn y *Cambrian News*.

Derbyniwyd llythyr eto oddi wrth un o drethdalwyr Cae'r Odyn yn cwyno am beryglon y groesfan sebra ger Ysgol Rhydypennau, gan nodi ambell ddigwyddiad am gerbydau yn prin sefyll pan oedd personau yn ei ddefnyddio. Dywedodd hefyd bod y ddeiseb yn Siop Spar ar hyn o bryd, a bod protest yn cael ei threfnu ar y safle yn fuan. Mae'r Cyngor yn cefnogi materion y llythyr yn llwyr.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd.

## Aberffrwd


**Dymuniadau gorau**

Dymuniadau gorau i Alice Gwynne-Jones a Jack Rendell yn eu cartref newydd, Tŷ Rheidol, Aber-ffrwd. Mae'r ddau yn gweithio yng Nghyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth, Alice fel Swyddog Cyfadran, a Jack yng Nghofrestrfa Academaidd y Gyfadran.

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

*Trefnwyr Angladdau*
*C T Evans*
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
*gwyn@ct-evans.co.uk*
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8
whhowells@gmail.com



## Goginan

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gydag Aled Bebb a'r teulu, Penpistyll ar farwolaeth ei chwaer Angharad Jones, Erw Goch, Waunfawr - gynt o Tawelfan, Capel Bangor.

**Y Druid**
Braf yw cael dweud fod y Druid wedi ail agor gyda rheolwr newydd - sef Nigel Davies, o Bwllheli gynt. Gobeithio y bydd eto yn le cymdeithasol i bobl yr ardal.

## Sul y Cofio



Seremonïau plwyf Trefeurig – seremoni fer, heb ganu ar Sgwâr Penrhyn-coch ac un ger cofeb Pen-bont Rhydybeddau



## Cyngor Cymuned GENEU'R GLYN

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyncommunitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 25.10.2021 yn rhithiol, 'roedd un aelod yn absennol. (Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw cyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Yr Is-Bwyllgor wedi cwrdd yn y parc i drafod yr awdit, datblygiadau a gohebiaeth, disgwyl prisiau am y gwaith. Aelodau i gwrdd eto ac adrodd nôl i'r Cynghorwyr;
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol ledled Ceredigion;
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol. Lleoliad cyfarfod mis Ionawr;
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 29 Tachwedd 2021 trwy Zoom.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Profi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Yr Agor

Ysgoloriaeth Geraint George 2020 /
Ffugenw: **Desh**



Ambell ddelwedd o Egin, preswylfa mynychais yng Nghapel Curig yn ystod haf 2019, a drefnwyd gan National Theatre Wales i bryfocio ymatebion celfyddydol newydd at newid hinsawdd.

Dawnsiwr o Galcwta, Vikram Iyengar, yn diflannu mewn i Lyn Mymbyr mewn ffrog wedi ei gwneud o goed, gan y dylunydd theatr Ruth Stringer. Plant hapus yn sgrechian wrth hedfan drostom ar Zipwire. Canu Joni Mitchell o gwmpas y tân. Gêm *tug-of-war* yng ngharnifal pentref Capel Curig.

Cerdded am-yn-ôl, gyda'm llygaid ar gau, yn meddwl am lwybr coedwig yn Llanfihangel Genau'r-glyn, lle cefais fy magu, sydd nawr wedi diflannu. Sgriblo geiriau Saesneg doeddwn i ddim yn eu gwybod yn fy llyfr nodiadau.

Daeth cadw cofnod o fanylion bychain a rhyfedd ein dydd-i-ddydd yn rywbeth i gydio ynddo, canfod lloches ynddo. O bob cyfeiriad roedd fy rhagdybion am dir, natur, iaith, Y Disgwrs, perthnasau dynol, Cymru, hanes, cyfoeth, y dyfodol a'n lle "ni" ymhob un o rheiny'n cael eu dad-sefydlogi. Rhodd rhannu amgylchfyd creulon a phrydferth Egin, gyda'r casgliad amrywiol hwn o feddyliau celfyddydol, syniadau arferol am yr hyn gallwn "ni" ei wneud am y dinistr amhosib-enfawr sy'n gwynebu ein planed mewn i berspectif newydd.

Trwy gydol y breswylfa, buodd yr artistiaid – naw ohonom yn Gymry a'r pedwar arall o Uganda, Bangladesh, Tasmania ac India – yn byw a bod ym mhenodolrwyddau'n hamgylchedd yng ngogledd-orllewin Eryri. Fe dreuliom bedwar diwrnod [intense] yn ymweld â safleoedd lleol gan ddysgu o arwyddocâd hanesyddol. Gwrandawom ar safbwyntiau trigolion Capel Curig a chymunedau cyfagos sy'n ymwneud â thirweddau cyfnewidiol yn eu bywydau bob-dydd, yn ffermwyr, yn artistiaid ac yn weithwyr mynydd, a hefyd ar bryfociadau siaradwyr gwadd, a gynigiodd ffyrdd newydd, angenrheidiol o feddwl am y pwnc mewn cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus dan y teitlau Tir, Arian, Gwrthryfel a Gobaith. Yn fwy na dim, gwrandawom ar syniadau'n cyd-artistiaid – am foddau gwahanol o brotestio ac ymateb, am y rôl dyngedfennol gall dychymyg ei chwarae wrth herio systemau hirsefydlog, ac am yr hyn mae'n ei olygu i berthyn i dir ac, yn fwy penodol, y teimlad hwnnw o *hiraethu* am dir, rhywbeth tebyg i'r gair Bengali *desh*. Pan cyflwynodd Shehzad, un o'r artistiaid preswyl, sy'n byw a chreu ym Dhaka, Bangladesh, y cysyniad o desh - gair tebyg iawn i hiraeth, ond â phenodolrwydd diwylliannol tebyg, fe wnaeth rhywbeth am y ffordd roeddwn yn trafod perthyn i dir, mewn ffordd sydd ar unwaith yn unigol a'n dorfol, ddatgloi.

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Dros y bythefnos, archwiliodd artistiaid Egin gyfyngiadau defnyddio celfyddyd i ymateb i fater mor unigryw enfawr â thrychineb hinsawdd – ond hefyd y posibiliadau diddiwedd. Sylweddolom, os nad oedden ni wedi gwneud cyn hyn, nad oes yr un mater rhywsut tu hwnt i newid hinsawdd. Roedd ymwneud ag amgylchedd cyfnewidiol Eryri yn 2019 yn golygu ymwneud â gwleidyddiaeth cymhleth perchnogaeth tir yn yr ardal; â dadleuon bregus ynghylch pwy sydd â'r hawl i adrodd straeon pobl eraill; ac i'r natur mae rhyw a rhywedd, hil a dosbarth yn ymwneud yn annatod â therfysg hinsawdd, a sut mae hyn yn galw am solidariaeth y mae angen iddo fod yn lleol ac yn rhyngwladol o hyd. Roedd rhai ohonom yn wynebu rhai cwestiynau hanesyddol ac athronyddol enfawr am y tro cyntaf; rhai na fyddem, cyn Egin**,** wedi'u gweld fel cwestiynau'n ymwneud â "newid hinsawdd" fel mae wedi cael ei fframio'n draddodiadol. Daeth pob un ohonom o'r breswylfa wedi dyfnhau'n dealltwriaeth o faint sydd angen i'n hymddygiad newid, a sut mae creu celfyddyd yn fodd gwerthfawr o ddatblygu deialog a ffyrdd newydd o feddwl.

Yr hyn taflodd Egin olau newydd arno oedd sut dydy trawsffurfiadau ran amla ddim yn cyhoeddi eu hunain fel trawsffurfiadau. Fe wynebom, ar Egin, yr hyn mae'n olygu *i berfformio llafur teimlo*; dros amgylchoedd a biosfferau a'n lle "ni" yn eu plith. Efallai nad yw'r llafur hwnnw o hyd yn ymddangos fel llafur, na fel placard nac arth wen. Gall ymddangos fel casgliad o bobol yn meddwl trwy'r gwaith caled o deimlo, yn dawel-bach neu allan yn uchel; ac yn gwrando ar ei gilydd.

Gwelais Eryri, Cymru a'r byd yn agor i fyny. A theimlais fy mod yn medru eu hanadlu yn eu cyfanrwydd, eu bod yn rhan annatod o fi a fy ymennydd a fy nghorff fel bod dynol, yma, heddiw.

Dyma amser am alar, ie, ond am deimlad, hefyd, a chyd-fod a phrofi syndod, bob dydd, ar y tir rhyfeddol a bregus hwn rydym wedi ei etifeddu. Amser i gerdded am yn ôl gyda'n llygaid ar gau; i ddychmygu, ac i'w hagor.

**Dylan Huw, Llandre a Chaerdydd**


Fel yr adroddwyd y mis dwythaf Dylan Huw enillodd Ysgoloriaeth Geraint George eleni - sefydlwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn cydweithrediad â Urdd Gobaith Cymru. Diolch i'r Urdd am ganiatâd i gyhoeddi y gwaith buddugol sydd yn disgrifio ei brofiadau o fod yn rhan o brosiect Egin gan Theatr Genedlaethol Cymru yn haf 2019.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Dro yn ôl cefais wybod gan Alwyn a Margaret Hughes, Y Gelli, Capel Madog, am enw diddorol ar gae yn perthyn i Ryd-y-ceir ger Bancydarren. Cae trionglog yw *Carchar Bedford* sy'n gorwedd ar ochr ogleddol y ffordd sy'n arwain o Gefn-llwyd i Fancydarren (SN670831), gyferbyn â Brynmadog, a hynny mewn cyferbyniad â gweddill tir y fferm sydd wedi ei leoli i'r de ohoni.




**Map Arolwg Ordnans 6" (1906) Ceredigion VII NW**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

Yn ôl yr hyn a ddeallaf gan Alwyn, enw yw hwn a fathwyd gan Ifan Morgan (tad y diweddar Rhys Morgan, Moelfryn) a fu'n ffermio Rhyd-y-ceir o flaen rhieni Alwyn. Ymddengys, felly, mai enw'n perthyn i ganol yr ugeinfed ganrif ydyw, ac mai ar lafar yn unig y digwydd.

Credai Alwyn bod cae *Carchar Bedford* wedi ei amgáu â ffens wifren yn y cyfnod hwn, yn wahanol i dir cyffiniol Ty'ngelli a Darren Banc, felly efallai mai dyna pam y'i disgrifiwyd fel *carchar*. Posibilrwydd arall yw'r syniad ei fod wedi ei gau i ffwrdd oddi wrth weddill tir Rhyd-y-ceir gan y briffordd. Fodd bynnag, yr awgrym yn yr enw yw bod modd cadw anifeiliaid yn gaeth neu'n ddiogel yno ar wahân i stoc eraill.

Ond mae'r rheswm dros ei enwi ar ôl carchar penodol *Bedford* yn fwy o ddirgelwch.

Un o'r ffeithiau mwyaf adnabyddus am *Garchar Bedford* yw mai yno y carcharwyd John Bunyan, y pregethwr a'r awdur, am ddeuddeng mlynedd cyn ei ryddhau tua 1672/3. Yn ôl traddodiad, dyma lle'r ysgrifennodd ei lyfr enwog *The Pilgrim's Progress*, a gyfieithwyd i'r Gymraeg fel *Taith y Pererin*. Ond go brin y byddai hynny wedi rhoi digon o amlygrwydd i'r carchar ar lawr gwlad i beri i rywun enwi cae ar ei ôl mor ddiweddar â hyn.

Rhyw ganrif ar ôl carchariad John Bunyan, sylweddoli'r amodau enbydus yng *Ngharchar Bedford* a barodd i'r dyngarwr, John Howard, gyhoeddi'r gyfrol *The State of Prisons in England and Wales*, ac ymgyrchu i wella eu cyflwr. Dyma sut yr adroddodd am y sefyllfa:

> The distress of prisoners … came more immediately under my notice when I was Sheriff of the county of Bedford; and the circumstance which excited me to activity in their behalf was, the seeing some, who by the verdict of juries were declared not guilty; some, on whom the grand jury did not find such an appearance of guilt as subjected them to trial; and some, whose prosecutors did not appear against them; after having been confined for months, dragged back to gaol, and locked up again till they should pay sundry fees to the gaoler, the clerk of assize, &c.
>
> John Howard, *The State of the Prisons in England and Wales* (Warrington, 1777) 1.

Mae'n amlwg bod ceidwad y carchar bryd hynny yn gyndyn iawn o ollwng unrhyw garcharor yn rhydd, hyd yn oed os oedd yn ddieuog. Os felly, tybed ai enw oedd *Carchar Bedford* yn cyfleu cae anodd neu amhosibl dianc ohono?

Efallai bod modd cymharu'r enw â *Bedlam*, a ddatblygodd o fod yn enw ar Ysbyty Mair o Fethlehem yn Llundain, i olygu 'gwallgofdy, seilam', cyn datblygu'r ystyr ffigurol 'sefyllfa o ddryswch neu dwrw gwallgof'.

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**










YTincer@googlemail.com

# Ysgol **Rhydypennau**

**Diolchgarwch**

Yn anffodus, oherwydd y sefyllfa gyfredol, nid oedd modd cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Eglwys eleni. Doedd hi ddim hyd yn oed yn bosib i'r holl blant a'r staff ymgynnull yn fewnol yn yr ysgol. Felly trefnwyd gwasanaeth arbennig ble trosglwyddodd plant blwyddyn 6 negeseuon pwysig y diolchgarwch trwy ddulliau technegol i weddill yr ysgol yn eu dosbarthiadau. Yn ystod ein gwasanaeth cyflwynwyd gwybodaeth am ein helusen eleni - sef 'Uned Gofal Ddwys Ysbyty Bron-glais'. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael gan i ni gasglu £311.32! Campus!

Ac i goroni'r cyfan, braf iawn oedd clywed y plant yn cael cyfle i ganu eto!

**Gweithgareddau'n ail-gychwyn**

Bellach, mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau ar ôl toriad o bron i ddeunaw mis! I ddechrau'r gweithgareddau bu plant blynyddoedd 1, 2 a 3 dan ofal Miss Manon Jones blwyddyn 2 yn brysur yn gwneud Pitsas. Blasus iawn!

Mae hyfforddiant hoci wedi ail ddechrau i blant blynyddoedd 5 a 6. Mae'r sesiynau hoci yn cael eu cynnal bob nos Fawrth o 3:30-4:30 dan ofal Miss Angharad Edwards blwyddyn 5.

Ar yr 21ain o Hydref fe gerddodd plant blwyddyn 1 a 2 i barc Llandre er mwyn cael profiad o gyd-chwarae oddi ar faes yr ysgol. Cafwyd cyfle hefyd i atgyfnerthu egwyddorion pwysig diogelwch y ffordd fawr ar y daith yno ac yn ôl.

Ar y 4ydd o Dachwedd aeth plant yr Uned Feithrin a'r dosbarth Derbyn ar y bws i goedwig Gogerddan. Yn y goedwig, cafodd y plant gyfle i arsylwi amryw o bethau diddorol iawn gan gynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion diri. Gwelwyd hefyd yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref; a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

**Siarter Iaith**

Er mwyn hybu'r Gymraeg yn yr ysgol cyflwynodd y Criw Cymraeg wybodaeth am gyfle arbennig i ddefnyddio Cerdyn Teyrnged mewn siopau fel Inc, Siop y Pethe, Spar Bow-Street, Pwdin a Garej Penrhyn.

Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach- ar y 15fed o Hydref, cafodd y plant gyfle i ddathlu diwrnod 'Shwmae'! Fuodd y plant yn brysur yn peintio cerrig gyda'r gair 'Shwmae' neu 'Sumae' arnynt. Gosodwyd y cerrig lliwgar mewn un rhes hir ar hyd ffens prif fynedfa'r ysgol. Roeddynt yn edrych yn drawiadol iawn!

Ar yr un diwrnod, rhoddwyd cyfle i'r plant wisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd er mwyn codi arian i'r Urdd.

I ychwanegu at holl firi'r achlysur, cafwyd ymweliad arbennig iawn i'r ysgol wrth i Mr Urdd ddod i'n plith! Roedd y plant wrth eu bodd!

**Cardiau Nadolig**

Rydym wedi bod yn brysur yn dylunio cardiau yn barod ar gyfer y Nadolig. Mae'r archebion wedi cael eu danfon ac yr ydym yn awyddus i'w derbyn yn ôl cyn hir.













# Ysgol **Craig yr Wylfa**








**Cyfnod Allweddol 2**
**Celf yr Ardal Leol**

Mae plant Cyfnod Allweddol 2 wedi cael llawer o brofiadau gwerthfawr wrth astudio agweddau o'r ardal leol. Yn ystod yr hanner tymor diwethaf, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ddysgu a dehongli Chwedl Taliesin. Yn ogystal â dysgu am bwysigrwydd y chwedl i'r ardal, rydym wedi gwahodd artist i'r ysgol ac wedi bod yn dysgu am ddaearyddiaeth y fro hefyd.

Roedd hi'n hyfryd i gael gwahodd yr artist Catrin Davies i'r ysgol yn ystod y mis. Mae Catrin yn gweithio yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ac yn artist hefyd. Mae'n hoffi creu animeiddiadau er mwyn pwysleisio syniadau a wedyn lluniadu'r gwaith fel cyfanwaith mawr. Roedd hyn yn amlwg yn y gwaith a wnaeth gyda ni. Da iawn chi blant am lwyddo i greu arddangosfa atmosfferig iawn i ddehongli'r chwedl.

**Ymweliad â Chors Fochno**

Yn ogystal â'r profiad ymarferol yn y dosbarth trefnwyd ymweliad diddorol iawn i Gors Fochno. Yno i'n croesau yr oedd Justin o Gyfoeth Naturiol Cymru a Hywel Griffiths o Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Wedi i Justin roi ychydig o hanes y gors a phwysleisio pa mor bwysig oedd y gors yn lleol ac yn genedlaethol, roedd hi'n amser i fentro allan am dro i'r gors. Roedd Hywel wedi trefnu llawer o weithgareddau diddorol i ni ac fe ddysgon ni lawer iawn am sut oedd y gors wedi ffurfio a pha mor bwysig yw hi bod y planhigyn migwyn yn byw ar y gors i greu mawn. Yr uchafbwynt mae'n siŵr oedd gwasgu rodiau i'r ddaear i weld pa mor ddwfn oedd y gors.



Diolch i Justin a Hywel am baratoi'r holl weithgareddau diddorol ac i Mrs Llwyd am bob helpu gyda'r trefnu ac am bob cymorth gyda'r gwaith yn y dosbarth.

**Cyfnod Sylfaen**

Rydym yn ffodus iawn o gael cymorth cyson gan rieni i gyfoethogi ein darpariaeth i'r plant. Yn ystod y mis diwethaf, daeth Cath Cave atom i gynnal gweithgareddau yn ein hardal wyllt. Yn ogystal â dysgu am bwysigrwydd coed i amgylchedd yr ysgol dangosodd sut oedd bywyd gwyllt yn dibynnu ar y coed a'r planhigion ar gyfer bwyd a lloches. Roedd hi'n hyfryd i groesawu Jenny Dingle yn ôl i'r ysgol hefyd i gynorthwyo gyda'r gweithgareddau. Roedd y plant wedi mwynhau cyflawni'r tasgau ac wrth eu boddau'n cael toddi marshmallows, a'u bwyta wrth gwrs!

Gan ein bod ni bellach yn cael mynd allan o'r ysgol ac i'r gymuned, rydym wedi bod yn manteisio'n llawn ar fynd i'r traeth. Fel rhan o astudio'r ardal leol, mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn dychmygu byw ar ynys hudol ac rydym wedi bod yn cymharu hynny gyda bywyd yng Nghantre'r Gwaelod. Dyma ni yn cerdded rhwng y coed ac yn dychmygu pa mor uchel oedden nhw ar un adeg!

**Carnifal**

Roedd Leo wrth ei fodd o gael ei lun wedi ei ddewis i fod ar glawr rhaglen Carnifal Y Borth 2021. Dyma fe gyda'i wobr arbennig. Pob hwyl i ti gyda'r gwaith celf yn y dyfodol.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Doedd hi ddim yn bosib i wahodd rhieni i'r ysgol eleni, ond cafwyd gwasanaeth hyfryd yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am gyfrannu bwyd. Bydd y cyfan yn cael ei drosglwyddo i Jubilee Storehouse yn fuan.

**Calan Gaeaf**

Roedd y plant wrth eu boddau'n cael gwisgo eu dillad Calan Gaeaf i'r ysgol eleni eto. Diolch i'r athrawon am drefnu llawer o weithgareddau diddorol i'r plant yn ystod y dydd hefyd.



# Ysgol **Pen-llwyn**

**Coginio Brownies**
Bu'r plant hynaf yn brysur yn coginio brownies a gwneud hufen iâ yn defnyddio cynnyrch lleol fel rhan o waith thema.

**Sioe Mewn Cymeriad**
Cafodd y plant hynaf fwyniant mawr yn dysgu am waith T. Llew Jones yn ystod sioe Mewn Cymeriad. Profiad gwych.

**Trên Ffoaduriaid**
Aeth y plant am dro i weld trên ffoaduriaid, sef plant Ysgol Plas-crug wrth iddynt basio trwy'r ardal. Roedd hyn yn rhan o astudio'r nofel gan Onjali Rauf *The Boy in the Back of the Class* (Orion Children's Books).

**COP26**
Buodd plant Cyfnod Sylfaen yn ogystal â disgyblion CA2 yn gwneud llawer o waith yn seiliedig ar Gynhadledd COP26 a chynhaliwyd gwasanaeth ar y pwnc. Cafwyd trafodaethau adeiladol. Gobeithio bydd y gwleidyddion yn dangos yr un brwdfrydedd yn Glasgow!

**Cystadleuaeth Bwganod Brain**
Roedd Cystadleuaeth Bwganod Brain y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn lwyddiant ysgubol ac roedd bwrlwm mawr yn yr ardal wrth i bawb ymweld â'r bwganod oedd yn llechu ym mhob twll a chornel o'r fro. Llongyfarchiadau i Andi a Bella-Reiss am greu y bwgan buddugol!

**Mr Shepherd y Seren Rygbi**
Buodd Mr Shepherd yn chwarae rygbi yn erbyn un o sêr Cymru a'r Llewod - sef Mike Phillps - oedd yn chwarae i'w hen glwb, Hendy-gwyn fel rhan o lawnsio ei hunangofiant newydd *Half truths* (Reach Sport). Yn ôl pob sôn cafodd Mike ei gadw yn dawel iawn ar y cae!

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch hyfryd dros "Teams" ar y 12fed o Hydref yng nghwmni y Parchedig Ingrid Rose a thrigolion Cartref Hafan y Waun. Roedd perfformiadau y plant yn ardderchog a gwrandawyd yn ofalus iawn ar neges amserol Y Parchedig Ingrid Rose.

**Clwb Dewiniaid Digidol**
Buodd y Clwb Dewiniaid Digidol yn brysur yn dysgu sut mae darllen a chreu Codau QR. Mae yn hynod bwysig dysgu am y sgiliau digidol hanfodol yma. Da iawn blant!

**Noson Tân Gwyllt**
Buodd plant y Cyfnod Sylfaen yn dysgu am ddiogelwch Tân Gwyllt ar gyfer Noson Guto Ffowc. Buodd nifer o'r plant wedyn yn dathlu mewn ffordd ddiogel a synhwyrol.







## GYDA'N GILYDD

**Sioe mewn Cymeriad**
Cafwyd sioe ardderchog gan y cymeriad 'Cati Wyllt' wrth iddi ein tywys trwy nifer o lyfrau stori a darnau barddoniaeth enwog T Llew Jones.
Braf oedd gweld y plant yn cymryd rhan wrth ddynwared rhai o'r cymeriadau enwocaf-Barti ddu a Twm Sion Cati!

**Diwrnod Coch, gwyn a gwyrdd**
Bu cynnwrf mawr ar y dydd Gwener cyn hanner tymor wrth i ni groesawu Mr Urdd atom yn y ddwy ysgol! Mae'n wir i ddweud y cawsom ddiwrnod llawn o weithgareddau hwyl wrth i ni ymfalchïo o fudiad yr Urdd sydd yn rhan bwysig iawn o fywydau pob un ohonom. Gwisgodd grwpiau gwahanol mewn coch, gwyn a gwyrdd ac fe greuwyd triongl anferth ar fuarth yr ysgol! Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu ac am ddysgu dawns yr Urdd i ni hefyd!

**Clwb yr Urdd**
Braf oedd cael ail gychwyn clwb ar ôl ysgol-ac mi gafon ni sesiwn hyfryd gyda Glenys Morgan yn creu addurn allan o ddeunyddiau naturiol a blodau hydrefol.Diolch Glenys am ddod atom

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Gwasanaeth diolchgarwch**
Braf oedd cael cynnal Gwasanaeth yng nghwmni trigolion Cartref Tregerddan Bow Street dros gyfarfod Teams eleni. Diolch i'r Parchg Lyn Dafis am ei anerchiad i ni yn ystod y gwasanaeth am fwyd. Da iawn blant am eich cyfraniad hyfryd. Diolch o galon hefyd i'r plant a'r rhieni am gasglu bwyd ar gyfer ein rhodd bocsys bwyd Diolchgarwch i drigolion Cartref Tregerddan.

**Bags 2 school**
Caglwyd tua £90 punt-diolch i bawb oedd wedi cyfrannu

**Diwrnod T Llew**
Dathlwyd Diwrnod T Llew Jones eleni gydag amryw o weithgareddau gan gynnwys disgyblion bl 5 a 6 yn creu cronfa



ddata am eu llyfrau a chael gwers ar sut i chwarae gwyddbwyll gan aelodau Cymry i'r Carn. Cawsom gyfle hefyd i wylio Sioe Mewn Cymeriad wych am waith T Llew Jones.

**Cyfnod Sylfaen**
**Sgwrs ddifyr gyda'r nyrs Meganne Tooze**
Fel rhan o waith y Cyfnod



Sylfaen y tymor yma rydym wedi bod yn astudio gwaith nyrs. Cafodd y disgyblion y fraint o groesawu Mrs Meganne Tooze ar lein i drafod ei swydd ac yna cael cyfweliad gan y disgyblion. Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen sgwrs ddifyr a llawn gwybodaeth. Hoffem ddiolch o galon i nyrs Meganne am brynhawn diddorol iawn.

Dwi'n siŵr bod yna nifer o nyrsys disglair y dyfodol ym mhlith y disgyblion y Cyfnod Sylfaen!

**Diwrnod Shwmae**
Buodd y plant yn brysur iawn ar ddiwrnod Shwmae yn addurno ffenest y dosbarth, chwarae Gêmau Bwrdd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn creu fideo perswadio rhieni i ddweud 5 gair Cymraeg a dysgu sut i arwyddo'r gân 'Helo, Shwmae'.

**Sesiwn beicio gyda Stefano**
Ar ddiwrnod gwlyb o Hydref cafodd plant Dosbarth Derbyn hwyl a sbri yn dysgu sgiliau beicio gyda Steffano. Yn ogystal â dysgu beicio derbyniwyd 5 beic newydd i annog ac i ddatblygu eu sgilau beicio. Diolch yn fawr i Steffano ac i Geredigion Actif










# Tasg y Tincer

Roedd sawl un ohonoch chi wedi bod yn brysur yn lliwio yn ystod y mis. Diolch am eich gwaith hyfryd i gyd, a braf gweld sawl enw newydd. Croeso mawr i chi! Diolch i: Anest ac Elis, Bow Street; Iestyn, Carian a Tirion, Y Borth; Gwern Elis Roberts; Pen-bont Rhydybeddau, Ania Wyn Hughes, Penrhyn-coch; Tesni Davies, Llanilar; Magi Davies, Caernarfon; Hanna Guy, Caerdydd; Cai Hopcyn Boyce, Caerdydd; Elen Evans, Penrhyn-coch; Celt, Math a Lois, Bont-goch.



Elen

Da iawn, Celt, Math a Lois, Bont-goch, hefyd, am eich lluniau gwych o'r chwaraewr pêl-droed. Penigamp!

Wedi twrio, troi a throsi yn yr het, dy lun di, **Elen**, ddaeth o'r het. Hwrê a llongyfarchiadau mawr!

Mae 11 Rhagfyr yn ddyddiad pwysig iawn i ni: **Diwrnod Cilmeri**. Ar y diwrnod hwn, yn 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffudd, tywysog Cymru. Milwr dewr, tywysog cryf a dyn clyfar tu hwnt – beth am ddarllen amdano? Falle eich bod chi wedi clywed yr enw 'Llywelyn ein Llyw Olaf'. Does neb yn siŵr iawn pwy laddodd y tywysog, ond mae carreg fawr yn nodi'r lle yng Nghilmeri ger Llanelwedd. Bydd seremoni yn cael ei chynnal yno ar 11 Rhagfyr. Beth am nodi 'Diwrnod Cilmeri' yn eich calendr neu ddyddiadur?

Mae tymor yr **Adfent** yn cychwyn ar 28 Tachwedd ac yn gorffen ar 19 Rhagfyr. Mae rhai yn dathlu'r Adfent trwy greu cylch o ddail â phedair cannwyll ynddo, ac yn cynnau un gannwyll ar bedwar Sul yr Adfent. Falle fod gan rai ohonoch chi galendr Adfent – un llawn siocled!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, lliwiwch lun y brenin dewr. Falle mai un fel hyn oedd Llywelyn! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Rhagfyr 1af. Ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

Rhif 443 | Tachwedd 2021